



## Cynnwys

<i>Crynodeb gweithredol</i> .....	3
Prif argymhellion: Cam 2 .....	6
<i>Adolygiad llenyddiaeth</i> .....	7
Cyflwyniad.....	7
Cerrig milltir allweddol o safbwynt diogelu yng Nghymru .....	8
Risg a grwpiau agored i niwed.....	11
Plant agored i niwed.....	11
Oedolion agored i niwed.....	16
Mabwysiadu dulliau gweithio amlasiantaeth mewn ymarfer diogelu: .....	17
Effaith fframwaith amlasiantaeth .....	18
Adnabod arferion effeithiol ar gyfer Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth: Beth yw trefniadau da?.....	19
Trefniadau diogelu amlasiantaeth: ffactorau eraill i'w hystyried .....	23
Beth sy'n gwneud dull 'Drws Ffrynt' da?.....	24
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'i oblygiadau ar gyfer gwaith diogelu amlasiantaeth:.....	26
Crynhoi .....	26
Methodoleg.....	28
Nodau'r astudiaeth bresennol .....	28
Dylunio a data.....	28
Ystyriaethau moesegol.....	31
Canlyniadau .....	32
Cyflwyniad.....	32
Thema 1: Nodau trefniadau diogelu.....	33
Thema 2: System 'Drws Ffrynt'.....	35
Thema 3: Partneriaeth .....	41
Thema 4: Myfyrio .....	45
Ffeithlun data ar ffurf cwmwl geiriau .....	50
Canlyniadau: Trefniadau lefel uchel Cymru ar gyfer trefniadau diogelu amlasiantaeth .....	51
Tabl 7. Trosolwg lefel uchel o drefniadau diogelu amlasiantaeth ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru .....	51
Trafodaeth .....	55
Canfyddiadau allweddol.....	55
Themâu allweddol o'r data a gasglwyd .....	55
Cyfyngiadau.....	60
Casgliadau .....	60

Prif argymhellion: Cam 2 .....	63
Cyfeiriadau .....	65
Atodiadau .....	72

## *Tablau*

Tabl 1. Themâu ac is-themâu allweddol.....	3
Tabl 2. Data sy'n dangos nifer yr oedolion sy'n wynebu risg y cafwyd adroddiadau yn eu cylch, ar lefel Cymru ac yn ôl awdurdod lleol (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 – ffynhonnell: StatsCymru, 2020b).....	17
Tabl 3. Cyd-destun cyfranogwyr .....	30
Tabl 4. Themâu ac is-themâu gyda gwybodaeth am amllder .....	32
Tabl 5. Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau cymorth .....	35
Tabl 6. Gwaith amlasiantaeth.....	42
Tabl 7. Trosolwg lefel uchel o drefniadau diogelu amlasiantaeth ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.....	51

## *Ffigurau*

Ffigur 1. Chwe Bwrdd Iechyd Cymru .....	10
Ffigur 2. Plant sy'n derbyn gofal (ar 31 Mawrth 2019) fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (ffynhonnell: StatsCymru, 2020).....	14
Ffigur 3. Plant ar y gofrestr amddiffyn plant (ar 31 Mawrth 2019) fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (ffynhonnell: StatsCymru, 2020) .....	15
Ffigur 4. Enghraifft o broses Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (ffynhonnell: Shorrock, McManus a Kirby, 2019a) .....	20
Ffigur 5. Llif y broses .....	37
Ffigur 6. Cwmwl geiriau sy'n cyfleu amllder y defnydd a wnaed o'r union eiriau hynny .....	50

## Crynodeb gweithredol

Roedd gofyniad y gwerthusiad yn nodi dwy elfen allweddol yr oedd angen i'r gwaith gwerthuso eu cyflawni:

1. Adolygiad llenyddiaeth llawn ar lefel genedlaethol/y DU o drefniadau diogelu amlasiantaeth ar gyfer oedolion a phlant (y dull 'Drws Ffrynt')
2. Pennu hyd a lled y trefniadau presennol sydd ar waith yng Nghymru, a'u nodweddion allweddol.

Cysylltodd y tîm gwerthuso â 33 o arweinwyr diogelu enwebedig, gyda chymorth gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a chafodd 29 eu cynnwys yn y dadansoddiad o ddata ar draws pob un o'r 22 o awdurdodau lleol sydd yng Nghymru. Oherwydd y pandemig Covid-19 byd-eang, cynigiwyd y gellid cwblhau arolwg agored yn lle'r cyfweiliadau arfaethedig dros y ffôn â phob arweinydd unigol ac y gellid dychwelyd yr arolwg hwnnw yn Gymraeg neu yn Saesneg drwy ebost. Cafodd y data ei drawsgrifio a'i ddadansoddi gan ddefnyddio NVivo er mwyn cyflawni dadansoddiad thematig. Mae'r themâu allweddol a nodwyd wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Tabl 1. Themâu ac is-themâu allweddol

<b>THEMÂU</b>	<b>Is-themâu</b>
<b>1: NODAU</b>	<i>Diogelu Cynorthwyo ac amddiffyn pobl Sicrhau system effeithiol a chydgysylltiedig Gwneud penderfyniadau gwybodus</i>
<b>2: SYSTEM 'DRWS FFYRYNT'</b>	<i>Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a/neu Bwynt Mynediad Unigol/Pwynt Cyswllt Unigol Y broses Systemau ar wahân Arweinyddiaeth</i>
<b>3: TREFNIADAETH PARTNERIAETH</b>	<i>Gwaith amlasiantaeth Strwythur timau Cydleoli Rhannu gwybodaeth</i>
<b>4: MYFYRIO</b>	<i>Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth – a ydynt yn effeithiol ai peidio? COVID-19 Yn gweithio'n dda Gwelliannau</i>

Yn gryno, amlygodd y data rai meysydd allweddol:

- Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod gwasanaethau 'Drws Ffrynt' wedi'u mabwysiadu yn effeithiol, a'u bod yn cael eu hystyried yn wasanaethau agored a hygyrch i bawb (drwy

amryw ddulliau cyfathrebu: drwy ebost a thros y ffôn, i bob defnyddiwr: o aelodau'r cyhoedd i wasanaethau/sefydliadau arbenigol).

- Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod iaith a gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a'r polisi diogelu newydd ar gyfer Cymru gyfan wedi'u mabwysiadu yn llwyddiannus o safbwynt canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod pwys yn cael ei roi ar sicrhau bod yr unigolyn a'r teulu yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn trefniadau cydweithio amlasiantaeth, ond mae'r modd y mae'r trefniadau hynny'n gweithredu yn amrywio'n sylweddol (gweler Tabl 7).
- Wrth geisio adnabod unigolion perthnasol i'w cyfweld, roedd yn amlwg bod gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn cael eu hystyried yn aml yn wasanaethau ar wahân i'w gilydd. Y bwriad yn wreiddiol oedd cyfweld un arweinydd diogelu o bob awdurdod lleol, ond wrth siarad â'r arweinwyr enwebedig roeddent yn aml yn gyfrifol am un maes, er enghraifft diogelu plant, ac roeddent felly'n rhoi enw rhywun ychwanegol a fyddai'n gallu trafod y prosesau a'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu oedolion.
  - Daeth y broblem hon yn fwy amlwg wrth drafod ag arweinwyr diogelu, oherwydd nid oedd cytundeb ynghylch a ddylai'r gwasanaethau hyn fod yn fwy cydgysylltiedig ynteu'n fwy neilltuol, arbenigol ac ar wahân i'w gilydd yn bwrpasol.
- Roedd rhai arweinwyr enwebedig ym maes diogelu oedolion yn hynod o frwdfrydig ynghylch newidiadau diweddar o ran polisi a deddfwriaeth, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan oedolion statws statudol cyfartal ym maes diogelu. Fodd bynnag, roedd rhwystredigaethau ymhlith arweinwyr diogelu oedolion yn parhau i bwysleisio'r angen i ddefnyddio 'dyletswydd i ymholi' er mwyn gorfodi camau gweithredu, a oedd yn dangos bod mwy o lawer o waith i'w wneud ym maes diogelu oedolion i sicrhau ymateb tebyg i'r hyn a welir ym maes diogelu plant.
- Er y soniwyd bod trefniadau 'Drws Ffrynt' wedi ennill eu plwyf ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol, mae'n amlwg o'r amryw drefniadau (gweler Tabl 7) nad oeddent bob amser wedi'u cydleoli â thimau diogelu, a bod pryderon ynghylch sut y gall prosesau a llwybrau ar draws y system gyfan gael eu gweld, eu rhannu a'u harchwilio a sut y gellir dysgu gwersi, sy'n bwysig. Roedd y sawl a oedd wedi'u cydleoli â'i gilydd (timau 'Drws Ffrynt' a thimau diogelu) fel pe baent yn cydweithio'n well â'i gilydd, a soniwyd bod mwy o gymorth a mwy o waith dysgu'n deillio o sgysiau wyneb yn wyneb am achosion wrth iddynt gyrraedd.

- Gwnaed y pwynt uchod hefyd wrth sôn am anawsterau sy'n codi gyda systemau rhannu gwybodaeth, sy'n rhwystro'r gwaith o ddeall data ar draws gwasanaethau (plant ac oedolion, ac o dimau 'Drws Ffrynt' i dimau diogelu), sydd yna'n cyfyngu ar gapasiti i gynllunio adnoddau a chyflawni prosesau sicrhau ansawdd.
  - Gofynnwyd i bawb a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth am niferoedd atgyfeiriadau er mwyn cael amcangyfrif o faint y galw ar draws pob gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n medru rhoi gwybodaeth am bob rhan o'r system, er enghraifft o wasanaethau 'Drws Ffrynt' i wasanaethau diogelu, a oedd yn cynnwys gwasanaethau oedolion a phlant, tra oedd eraill yn medru darparu gwybodaeth am eu gwasanaeth nhw'n unig ac yn methu â chael gafael ar fwy o ddata. Mae hynny'n amlygu problemau unwaith yn rhagor o ran gallu gweld y system gyfan.
- Gwelwyd safbwyntiau a dulliau gweithredu gwahanol o safbwynt trefniadau amlasiantaeth rhwng y sawl sy'n defnyddio trefniadau amlasiantaeth mwy rhithwir a'r sawl sy'n defnyddio Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth mewn adeiladau, yn enwedig rhwng y rhai sydd mewn ardaloedd gwledig a'r rhai sydd mewn ardaloedd trefol.
  - Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi amlygu ymhellach yr amrywiadau sydd rhwng darpariaethau diogelu mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd ardaloedd gwledig fel pe baent yn fwy parod ar gyfer gweithio o bell ac yn gallu gwneud hynny'n well, o'u cymharu ag ardaloedd trefol a fynegodd bryder ynghylch y posibilrwydd y byddai cydberthnasau'n gwanhau rhwng sefydliadau pe bai trefniadau gweithio o bell yn parhau.
- Cafwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod asiantaethau allweddol yn cymryd rhan yn effeithiol mewn prosesau rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau, a bod lefelau uchel o ymgysylltu â'r heddlu ond bod problemau wrth i sefydliadau eraill ymgysylltu fel y bo angen. Soniwyd yn aml am y sector addysg a CAMHS.
- Er na chawsant eu crybwyll yn aml, bu rhai arweinwyr diogelu'n trafod problemau'n ymwneud ag adnoddau a throsiant staff. At hynny, soniodd ambell un am eu pryderon ynghylch gallu rhoi digon o gymorth i aelodau eu tîm sy'n delio â theuluoedd agored i niwed, ar ôl iddynt golli eu rhwydwaith o gymorth ffisegol (cymorth eu cymheiriaid) (oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a threfniadau gweithio o bell).
- O ran effaith Covid-19, roedd yna bryderon ynghylch gohirio neu leihau ymyrraeth gynnar a chymorth ac ymatebion ar lefel gymunedol, ac roedd yna bryderon ychwanegol ynghylch plant na chânt eu hystyried yn blant sy'n wynebu risg, neu blant sydd heb gynllun amddiffyn plentyn, ac ynghylch y ffaith nad yw llawer o blant agored i niwed yn cael eu gweld am fisoedd gan neb y tu allan i'w cartrefi.

- Yn gyffredinol, bu'r arweinwyr diogelu enwebedig yn siarad yn hyderus am eu nodau diogelu a'r modd yr oeddent yn eu cyflawni, ond roedd y mwyafrif yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

## Prif argymhellion: Cam 2

Mae'r prif argymhellion ynghylch gwaith y dylid ei wneud yn y dyfodol er mwyn helpu i barhau i lywio a gwella trefniadau diogelu amlasiantaeth effeithiol wedi'u tynnu allan o'r astudiaeth bresennol. Dylid gofyn y cwestiynau craidd canlynol mewn unrhyw astudiaeth ddilynol:

1. Beth yw barn, safbwyntiau a phrofiadau aelodau eraill o staff diogelu yng nghyswllt prosesau diogelu presennol, a 'beth yw trefniadau da'? Dylai cwestiynau pellach archwilio'n fwy manwl y gwerth ychwanegol sydd i'w gael o gydweithio ym maes diogelu.
  - a. O ystyried canfyddiadau'r astudiaeth bresennol, dylai hynny gynnwys y sawl sy'n gweithio mewn gwasanaethau 'Drws Ffrynt', timau diogelu, timau plant ac oedolion, a gwasanaethau ehangach megis help cynnar ac asiantaethau eraill sy'n rhan o'r prosesau hyn, a dylent gynnwys y sawl sy'n gweithio ar draws ardaloedd gwledig a threfol.
2. Pwy sy'n cyfrannu at rannu gwybodaeth, gwneud penderfyniadau a llunio asesiadau risg? Sut y maent yn cyfrannu? Byddai archwilio'r cwestiwn hwn yn helpu i lywio'r modd y bydd trefniadau'n cael adnoddau ac yn gweithredu (wedi'u cydleoli/o bell) yn y dyfodol.
3. All prosesau ac ymarfer diogelu effeithiol gael eu hadnabod mewn data diogelu?
  - a. Archwilio setiau data drwy'r system ddiogelu. Unwaith eto, dewis detholiad o drefniadau gwahanol a nodwyd yn yr astudiaeth bresennol (e.e. gwasanaethau plant/oedolion/cydgysylltiedig, ardaloedd trefol/gwledig, gweithio o bell/cytleoli) a dadansoddi'r data yn fwy trylwyr wrth archwilio gwaith gwneud penderfyniadau, y rhan y mae asiantaethau/ymyriadau yn ei chwarae, achosion sy'n dychwelyd i'r system, nodweddion sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed, ac ati. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl deall y broses o bontio o'r cyswllt cychwynnol i gymorth tymor hwy, a deall beth sy'n gweithio yn dda.
  - b. Byddai cwestiynau allweddol yn cynnwys: Pa ffactorau sy'n bresennol mewn achosion nad ydynt yn dychwelyd i'r system? Ac i'r gwrthwyneb, pa ffactorau sy'n bresennol yn yr achosion sy'n dychwelyd?
4. Beth fu effaith Covid-19 ar ymarferwyr a threfniadau cydweithio? Archwilio eu profiadau a'u safbwyntiau wrth geisio adnabod arfer da a ddylai barhau ar ôl Covid-19,

yn ogystal ag archwilio meysydd lle mae angen gwneud newidiadau a lle mae angen cymorth ychwanegol yn y dyfodol.

5. Beth fu effaith Covid-19 ar ymarfer diogelu i unigolion a theuluoedd (defnyddwyr)?
  - a. Ystyried effaith Covid-19 ar y teuluoedd hynny sy'n agored i niwed. Archwilio pa gymorth, os o gwbl, a gawsant yn ystod y cyfnod clo ac archwilio effaith eu profiadau. Felly, ymgysylltu â phlant, teuluoedd ac oedolion sy'n ymwneud â gwasanaethau diogelu, er mwyn cael eu barn ynghylch beth sy'n gweithio yn dda a beth nad yw'n gweithio.
  - b. Mae angen deall effaith amrywiol y cyfnod clo, a chyfnodau clo 'bach' parhaus posibl, ar blant. Ystyried sut y gall ysgolion a gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol a pharatoi ar gyfer unrhyw darfu pellach oherwydd Covid-19, ond ystyried hefyd y ffordd orau o gynorthwyo plant agored i niwed, a allai fod wedi dioddef ystod o brofiadau niweidiol yn ystod y cyfnod dan sylw ac a allai barhau i ddioddef profiadau o'r fath yn ystod cyfnodau o hunanynysu.
6. A yw gwersi byw a gweithredol ac adborth i ymarferwyr yn arwain at weithredu ac yn cael eu rhannu/sut mae hynny'n digwydd? Cysylltiadau â hyfforddiant, datblygu, myfyrio a thryloywder – a gafodd sylw yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn. A yw'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth a diwylliant ac, os felly, sut?

## *Adolygiad Ilenyddiaeth*

### *Cyflwyniad*

Yn ôl Richardson (2014, t.118) ystyr diogelu yw amddiffyn grwpiau agored i niwed rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod, ac mae pob unigolyn sy'n gweithio gyda grwpiau o'r fath yn gyfrifol am wneud hynny. Eto i gyd, er gwaethaf gwaith caled llawer o weithwyr proffesiynol yn y sector diogelu i geisio amddiffyn plant a phobl ifanc a'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, anaml y mae'r dasg yn gallu cael ei chyflawni gan un asiantaeth neu dîm penodol. Yn 2014, yng nghyswllt adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau prosiect gan y Swyddfa Gartref a oedd yn ceisio adnabod modelau amlasiantaeth, cafodd cyfweiliadau eu cynnal â 37 o awdurdodau lleol yn Lloegr. Nododd yr adroddiad fod dros ddwy ran o dair (26) o'r awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweled wedi sôn bod ganddynt fodelau amlasiantaeth ar waith adeg y cyfweiliad (rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2013) – defnyddiodd tua hanner y rheini y term Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth i ddisgrifio eu model (Y Swyddfa Gartref, 2014, t. 6). Yn ôl sylwadau a wnaed gan Shorrocks, McManus a Kirby (2019b) mae Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, yn wahanol i systemau diogelu blaenorol a oedd fel rheol yn cynnwys

prosesau gwneud penderfyniadau unigol, yn ceisio adnabod a rheoli risg cyn gynted ag sy'n bosibl drwy hybu dull cydweithredol o ddiogelu (t. 9).

Er y ceir llawer o gytundeb ynghylch manteision dulliau amlasiantaeth, cydweithredol o weithredu ym maes diogelu, cydnabyddir yn eang bod y gwaith o weithredu'r modelau hyn yn ymarferol yn amrywio'n helaeth ac mai bach iawn o dystiolaeth sy'n bodoli ynghylch eu heffeithiolrwydd mewn gwirionedd (Shorrocks, McManus a Kirby, 2019a). Gofynnir cwestiynau'n aml ynghylch pa asiantaethau ddylai fod yn rhan ohonynt a sut y dylent gymryd rhan, a cheir cwestiynau anos ynghylch trefniadau llywodraethu, strwythurau ffurfiol, trefniadau rhannu gwybodaeth, cyllid ac adnoddau (Shorrocks, McManus a Kirby, 2019b). Mae'r diffyg adolygiadau cenedlaethol o ran hynny'n golygu bod llawer o awdurdodau lleol ac asiantaethau wedi bod yn rhydd i benderfynu ar fodel sy'n addas i'w hanghenion nhw, nad yw efallai'n cael ei ategu gan dystiolaeth, a bod penderfyniadau wedyn yn cael eu seilio ar adnoddau ac ar fudd a chyfluoedd lleol. Mae gwir angen tystiolaeth ynghylch y ffordd orau o greu, gweithredu a chynnal trefniadau diogelu amlasiantaeth effeithiol sy'n ystyried gwahaniaethau lleol (e.e. data am boblogaeth a data am wasanaethau a throsteddu) er mwyn sicrhau bod ein pobl fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu.

Mae adran gyntaf yr adroddiad hwn yn egluro'r llenyddiaeth bresennol sy'n archwilio trefniadau diogelu amlasiantaeth, ac yn tynnu sylw at ddatblygiadau deddfwriaethol perthnasol ym maes diogelu a manteision damcaniaethol cydweithio ac yn rhoi sylw i weithredu, gan ganolbwyntio ar dystiolaeth o arfer da ac ar fylchau yn ein dealltwriaeth, yn enwedig o safbwynt diffyg gwaith ymchwil i ddiogelu yng Nghymru.

### Cerrig milltir allweddol o safbwynt diogelu yng Nghymru

Mae nifer o adroddiadau, darnau o ddeddfwriaeth a chanllawiau allweddol wedi bod yn hollbwysig wrth ddatblygu trefniadau gweithio amlasiantaeth ym maes diogelu. Caiff y cerrig milltir allweddol eu nodi'n gyntaf.

Sefydlodd Deddf Plant 1989 y gofynion statudol cyntaf ar gyfer cydweithio rhyngasiantaethol a gweithio ar y cyd, yn benodol yng nghyswllt beth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill ei wneud i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu. Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar y syniad bod plant yn cael y gofal gorau'n bennaf oddi mewn i'w teuluoedd, caiff sefyllfaoedd eraill eu hystyried pan fydd teuluoedd yn methu â chyflawni eu rôl ofalu. Roedd Deddf Plant 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn Lloegr yn ceisio cryfhau'r berthynas hon a oedd eisoes yn bwysig, trwy osod dyletswyddau newydd ar asiantaethau allweddol mewn ardal leol. Yng Nghymru, mae darpariaethau

amddiffynnol Deddf Plant 1989 yn parhau mewn grym ac mae darpariaethau eraill Deddf Plant 1989 yn bodoli ar y cyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Bwrdd Diogelu Cymru, 2020).

Roedd Victoria Climbié yn 8 oed pan gafodd ei llofruddio gan ei hen fodryb Marie-Thérèse Kouao a'i chariad Carl Manning. Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus yn dilyn yr amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Victoria, a esgorodd ar argymhellion o bwys ar gyfer polisi amddiffyn plant y DU: Ymchwiliad Victoria Climbié gan yr Arglwydd Laming (2003). Roedd yr argymhellion hynny'n cynnwys cael asiantaeth genedlaethol ar gyfer plant a theuluoedd, a fyddai'n canolbwyntio ar fonitro perfformiad effeithiol asiantaethau gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau tai; ffurfio pwyllgor plant a theuluoedd ym mhob awdurdod lleol, a fyddai'n cynnwys aelodau o awdurdod yr heddlu, y cyngor ac ymddiriedolaeth y gwasanaeth iechyd; a chael un ddogfen sy'n amlinellu iaith gyffredin ar gyfer pob asiantaeth, a fyddai'n cynnwys canllaw cam wrth gam i reoli achos. Dim ond i Loegr y mae hynny'n berthnasol, felly yng Nghymru mae trefniadau llywodraethu, cylch gorchwyl a chyfrifoldeb cynghorau yng nghyswllt plant a theuluoedd yn gallu amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall. Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau bortffolios Cabinet ar wahân ar gyfer oedolion a phlant, ac mae gan rai ohonynt bwyllgorau craffu ar wasanaethau cymdeithasol, sy'n ymdrin ag oedolion a phlant.

Yn sgil Strategaeth Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru (Iechyd yng Nghymru, 2020), cafodd strwythur GIG Cymru ei ad-drefnu er mwyn creu sefydliadau iechyd lleol unigol a oedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd mewn ardal ddaearyddol, yn lle'r system Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol. Arweiniodd hynny at greu chwe Bwrdd Iechyd a thair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru (Ffigur 1, isod).

Ffigur 1. Chwe Bwrdd Iechyd Cymru



Mae'r chwe Bwrdd Iechyd Lleol hynny'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) i rym ar 6 Ebrill 2016. Roedd y Ddeddf yn rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen, ac yn galluogi gofawyr i fod yn gyfranwyr cyfartal yng nghyswllt y math o gymorth sydd ar gael i'r sawl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar y bobl sydd yn y system, ond mae hefyd yn rhoi pwys ar greu partneriaethau a threfniadau cydweithio effeithiol da. Roedd y Ddeddf yn hynod oherwydd ei bod yn mynnu bod gwaith diogelu oedolion yn gydradd o safbwynt statudol â gwaith diogelu plant. Er enghraifft, cyflwynodd bŵer newydd i alluogi awdurdodau lleol i ymyrryd a gorfodi mynediad er mwyn gweld oedolyn, a oedd yn cynnwys mynediad dan orfod i gartref oedolyn dan adran 127 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Bwrdd Diogelu Cymru, 2020).

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar bobl ac yn hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt (Bwrdd Diogelu Cymru, 2020). Bwriad y Ddeddf wrth integreiddio a symleiddio'r gyfraith oedd sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder ar gyfer y sawl sy'n gweithio gydag unigolion y mae angen pob math o ofal a chymorth arnynt. Gyda'i ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar, mae'r Ddeddf yn datgan fel a ganlyn yn ei hegwyddorion craidd:

Rôl allweddol y gwasanaeth gwybodaeth, cynghori a chymorth, y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei sicrhau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fydd darparu gwybodaeth i unigolion

am yr ystod o wasanaethau eirioli sydd ar gael yn eu hardal, a'u cynorthwyo i'w defnyddio os oes angen er mwyn eu helpu i sicrhau eu canlyniadau llesiant. (Llywodraeth Cymru, 2019a, t.7)

Yn ogystal, creodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Gosodwyd tair prif ddyletswydd graidd ar y Bwrdd hwnnw:

1. Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol
2. Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru
3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (adran 132 (2)).

Wrth ddatblygu hynny ymhellach, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn canolbwyntio ar fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o weithio gyda phobl a chymunedau, gan sicrhau bod llesiant y sawl sy'n byw yng Nghymru yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. Wrth ganolbwyntio ar drais, erledigaeth ac ymateb y sector cyhoeddus, datblygodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ddull gweithredu sy'n seiliedig ar anghenion (nad oedd yn newid cyfraith trosedd) gyda'r bwriad o hybu ymwybyddiaeth, atal ac amddiffyn dioddefwyr sy'n profi troseddau o'r fath.

## Risg a grwpiau agored i niwed

Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, cydnabuwyd bod rhai ffactorau risg yn gallu cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dioddef trosedd. Mae'r ffactorau hynny wedi'u hymgorffori mewn strategaethau rheoli risg amlasiantaeth (Shorrocks, McManus a Kirby, 2019a/b). Mae'r rheini wedi tueddu i ganolbwyntio ar dri grŵp penodol o bobl agored i niwed: (1) plant agored i niwed, (2) oedolion agored i niwed, a (3) cam-drin domestig. Oherwydd bod gan yr adroddiad hwn ddiddordeb mewn trefniadau diogelu 'Drws Ffrynt', bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar blant ac oedolion.

### Plant agored i niwed

Caiff yr arfer o ddiogelu ei gysylltu'n aml â'r arfer o amddiffyn y bobl ieuengaf a mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ac nid i oedolion, sy'n esgor ar ddiffiniadau gwahanol. O ganlyniad, gall anghenion y ddau grŵp hynny (plant ac oedolion) o ran diogelu fod yn wahanol iawn i'w gilydd (Shorrocks, McManus a Kirby, 2019b). Canolbwyntiwyd yn y gorffennol ar ddatblygu

polisiau a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer plant<sup>1</sup> ac oedolion agored i niwed, ac roedd Cymru ar flaen y gad o safbwynt sicrhau statws statudol cyfartal i blant ac oedolion (fel y disgrifir uchod) ac o safbwynt cyflwyno Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Diogelu Cymru, 2020). O ran plant<sup>2</sup>, gwelwyd cynnydd mawr yn ystod y pedwar degawd diwethaf yn nealltwriaeth pobl o ddiogelwch plant. Nododd Sidebotham (2001) fod y ddealltwriaeth honno wedi'i seilio mewn dau fodel gwyddonol: y model seicodynamig a'r model cymdeithasegol. Yn fwy diweddar, mae'r ddau linydd wedi'u hymgorffori mewn model ecolegol mwy cynhwysfawr (t. 97). Mae'r dull ecolegol o weithredu yn canolbwyntio'n bennaf ar risg sy'n bodoli yn y gymdogaeth.

Dywed Ansley-Green a Hall (2009), wrth ystyried dulliau o atal cam-drin plant<sup>3</sup>, fod modd i arferion diogelu gael eu rhannu i dair lefel, sef yr unigolyn neu'r teulu, yr ardal neu'r ysgol leol, a'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Fel y nododd Shorrock (2017), mae'r fframwaith hwn y mae tair agwedd yn perthyn iddo yn cefnogi'r syniad nad y wladwriaeth yn unig sy'n gyfrifol am reoli risg, a bod amryw weithredwyr cymdeithasol ac economaidd yn gyfrifol am wneud hynny (t. 42). Fodd bynnag, mae'r cwestiwn o gyfrifoldeb yn gwestiwn perthnasol, oherwydd mae ymchwil wedi awgrymu bod y cyfrifoldeb am ddiogelu plant yn y gorffennol wedi'i ysgwyddo yn aml gan wasanaethau cymdeithasol gyda newidiadau rheolaidd i bolisi, sydd wedi ychwanegu at y dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldeb gwirioneddol asiantaethau partner (Horwath a Morrison, 2007; Munro, 2011; Shorrock, 2017). Mae hynny wedi peri i ymarferwyr fethu â chanolbwyntio ar eu prif gyfrifoldeb, sef mynd i'r afael ag anghenion plant agored i niwed, a

---

<sup>1</sup> Wrth ddiffinio natur agored i niwed plant, caiff y term ymbarél 'cam-drin plant' ei ddefnyddio'n aml gan weithwyr proffesiynol wrth ddisgrifio ymddygiad oedolion sy'n achosi niwed i blentyn yn fwriadol neu'n anfwriadol (Marsh, Cochrane a Melville, 2004). At hynny, cynigiodd Kempe a Kempe (1978) fod yna bedwar math gwahanol o gam-drin plant: trais corfforol, esgeulustod corfforol ac emosiynol, cam-drin emosiynol a cham-drin rhywiol. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae'r categorïau hynny wedi troi'n gam-drin corfforol, cam-drin rhywiol ac esgeulustod. At ddiben yr adolygiad hwn, caiff y term 'cam-drin plant' ei ddefnyddio.

<sup>2</sup> Yng nghyfraith y DU, ni chaiff oedran plentyn ei ddiffinio (NSPCC, 2015). Felly, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r diffiniad a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Plentyn, felly, yw unrhyw fod dynol sydd dan ddeunaw oed (UNICEF, 1989). Diffiniad Tŷ'r Cyffredin (2008) o blentyn agored i niwed yw unigolyn sy'n annhebygol o gyrraedd neu gynnal safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb fod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu.

<sup>3</sup> Er gwaetha'r ystod gymharol eang o raglenni sy'n bodoli o fewn y dair lefel dan sylw, soniodd MacMillan, Wathen, Barlow, Fergusson, Leventhal a Taussig (2008) fod effeithiolrwydd ymyriadau o'r fath yn parhau'n anhysbys. Fodd bynnag, nododd MacMillan et al. (2008) fod dwy raglen benodol sy'n cynnwys ymweld â chartrefi, sef y Bartneriaeth Nyrsys Teulu (y dystiolaeth orau) a Dechrau'n Gynnar yn ymyriadau effeithiol o safbwynt atal cam-drin plant ac atal canlyniadau cysylltiedig megis anafiadau.


chael eu llethu'n hytrach gan yr angen i weithredu polisi newydd. Yn sgil y methiant hwnnw, mae pryderon wedi dod i'r amlwg ynghylch y ffaith bod gwaith diogelu go iawn yn cael ei esgeuluso, gan fod y straen sy'n cael ei roi ar weithwyr proffesiynol ym maes diogelu'n cynyddu.

Er na wyddys yn iawn faint o gam-drin plant sy'n digwydd yn y DU, mae'r wybodaeth ddiweddaraf o bob cwr o Gymru (Llywodraeth Cymru, 2019b) yn dangos bod 6,846 o blant (dan 18 oed) yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019, sydd 7% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. At hynny, dangosodd data fod y nifer honno'n cynnwys ychydig yn fwy o fechgyn (3,697, 54%) na merched (3,149, 46%), a bod y cyfrannau hynny'n sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth ystyried proffil oedran plant sy'n derbyn gofal, 10-15 oed oedd yr ystod oedran fwyaf cyffredin ymhlith plant sy'n derbyn gofal, ac roedd plant dan 1 oed hefyd yn grŵp oedran amlwg:

- Dan 1 oed: 31%
- 1-4 oed: 19%
- 5-9 oed: 23%
- 10-15 oed: 37%
- 16 oed a hŷn: 15%


Fodd bynnag, roedd amrywiadau sylweddol yn nifer y plant dan 18 oed sy'n derbyn gofal, wrth gymharu'r ffigurau fesul 10,000 o'r boblogaeth ar draws pob awdurdod lleol.

Ffigur 2. Plant sy'n derbyn gofal (ar 31 Mawrth 2019) fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (ffynhonnell: StatsCymru, 2020)



Roedd y niferoedd hyn ychydig yn wahanol wrth gymryd nifer y plant ledled Cymru sydd ar y gofrestr amddiffyn plant fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac roedd y niferoedd ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn uwch na'r niferoedd ar gyfer awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, rhaid nodi'r ymdrech sylweddol a wneir ledled Cymru i wella dealltwriaeth o blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â chynllun amddiffyn plentyn ac i ymateb yn well iddynt, drwy eu cyflwyniadau a'r gofynion gorfodol ynghylch gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn ceisio atal achosion rhag troi'n argyfyngau a thrwy drefniadau ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal.

*Ffigur 3. Plant ar y gofrestr amddiffyn plant (ar 31 Mawrth 2019) fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (ffynhonnell: StatsCymru, 2020)*



Roedd data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) yn amcangyfrif bod un o bob pum oedolyn 18-74 oed wedi profi o leiaf un math o gam-drin rhywiol neu wedi bod yn dyst i drais neu gam-drin domestig cyn eu bod yn 16 oed (sef 8.5 miliwn o bobl). At hynny, dywedodd 481,000 o oedolion eu bod wedi profi esgeulustod corfforol a datgelodd 3.1 miliwn eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol cyn eu bod yn 16 oed. Dywedodd tua 44% o oedolion eu bod wedi profi mwy nag un math o gamdriniaeth. Nid yw'r data hwnnw wedi'i ddadansoddi er mwyn dangos niferoedd ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr.

## Oedolion agored i niwed

Nid yw diogelu'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc yn unig; mae'n ymwneud hefyd â'r sawl y bernir eu bod yn oedolion. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau interim blaenorol ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yng Nghymru wedi'u disodli erbyn hyn gan Weithdrefnau Diogelu Cymru a lansiwyd ym mis Tachwedd 2019. Dyma ddisgrifiad y gweithdrefnau hynny o oedolyn sy'n wynebu risg:

Unrhyw un dros 18 oed sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso ac y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) ac nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso (adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

O fewn y gweithdrefnau, caiff egwyddorion ymarfer diogelu eu hegluro sy'n ategu'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r gweithdrefnau. Yn benodol, rhoddir pwys ar sicrhau ffocws ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ystyried hawliau'r unigolyn ac yn parchu ei urddas, ac sydd hefyd yn gwarchod ei fuddiannau. Mae'r gweithdrefnau diogelu hefyd yn pwysleisio anghenion yr unigolyn a'r ffocws ar ddeilliannau personol a chyfathrebu, drwy'r canllawiau ynghylch 'system ddiogelu effeithiol'. Mae adnoddau ychwanegol yn nodi'r diffiniadau o oedolion sy'n wynebu risg ac yn nodi prosesau diogelu, gan gynnwys gwaith atal a help cynnar (Diogelu Cymru, 2020). Dylid nodi nad yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disodli unrhyw rai o'r canllawiau statudol a nodwyd yn flaenorol; yn hytrach maent yn ceisio cryfhau ac egluro cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol.

Mae data gan StatsCymru (2020b) yn dangos bod 20,472 o adroddiadau am oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg wedi dod i law yn ystod 2018-19 ar draws Cymru, a bod 10,789 o'r rheini wedi arwain wedyn at ymholiad. Unwaith eto, roedd y ffigurau hynny'n amrywio ar draws awdurdodau lleol:

Tabl 2. Data sy'n dangos nifer yr oedolion sy'n wynebu risg y cafwyd adroddiadau yn eu cylch, ar lefel Cymru ac yn ôl awdurdod lleol (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 – ffynhonnell: StatsCymru, 2020b)

<b>Ardal</b>	<b>Nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg</b>	<b>Nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ymholiad</b>
<b>Cymru</b>	<b>20472</b>	<b>10789</b>
Abertawe	1185	372
Blaenau Gwent	491	448
Bro Morgannwg	425	425
Caerdydd	1235	452
Caerffili	996	378
Casnewydd	929	929
Castell-nedd Port Talbot	828	702
Ceredigion	812	544
Conwy	686	113
Gwynedd	468	452
Merthyr Tudful	866	184
Pen-y-bont ar Ogwr	275	261
Powys	789	448
Rhondda Cynon Taf	4699	419
Sir Benfro	906	332
Sir Ddinbych	595	582
Sir Fynwy	714	629
Sir Gaerfyrddin	1198	1198
Sir y Fflint	642	567
Torfaen	637	573
Wrecsam	827	616
Ynys Môn	269	165

At hynny, yn ôl data gan StatsCymru (2020b), o'r 10,789 o adroddiadau a gafwyd ar draws Cymru a arweiniodd at ymholiad, arweiniodd 59% (6,388) at benderfyniad bod angen camau gweithredu gan yr awdurdod lleol. Yn ogystal, roedd ffynhonnell y cyswllt cyntaf ar gyfer yr adroddiad am oedolyn a oedd yn wynebu risg yn fwy tebygol o fod yn 'asiantaeth ddarparu' (5,224), yn heddlu (4,200) ac yn awdurdod lleol (3,397). At hynny, cartref yr oedolyn oedd lleoliad mwyaf cyffredin y gamdriniaeth honedig (2,699), gyda chartref gofal yn dilyn yn agos wedyn (2,228) a lleoliadau cymunedol a lleoliadau ieuchyd yn dangos ffigurau a oedd islaw 1000.

#### [Mabwysiadu dulliau gweithio amlasiantaeth mewn ymarfer diogelu:](#)

Nododd Percy-Smith (2006) yr honiad cyfarwydd a chilir bod cydweithio, waeth beth fo'r holl fodelau a'r holl ddamcaniaethau ynghylch dulliau amlasiantaeth o weithredu, yn esgor ar ystod

ehangach o fanteision na gweithio heb bartneriaethau. O'r safbwynt hwnnw, mae Fox a Butler (2004, t. 38) yn cynnig pedair mantais bendant y gall partneriaeth amlasiantaeth eu cynnig, sy'n berthnasol i unrhyw fframwaith cydweithio posibl ond sy'n arbennig o berthnasol yn y sector diogelu:

1. Sicrhau dulliau holistaidd o fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd ar draws meysydd dylanwad nifer o sefydliadau.
2. Gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, yn enwedig drwy ddarparu gwasanaethau mwy di-dor.
3. Datganoli'r gwaith o ddatblygu atebion, yn aml drwy hybu camau i ddatrys problemau yn lleol, ar sail rhyw fath o ddadansoddiad lleol o anghenion.
4. Cynyddu'r graddau y caiff defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau ehangach eu cynnwys yn y gwaith.

At hynny, ceir y syniad bod partneriaethau'n gallu dileu tensiynau croes i'w gilydd rhwng polisïau, rhaglenni neu ymyriadau, sy'n berthnasol tu hwnt ym maes diogelu. Gall hynny olygu bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n well o lawer (er enghraifft, o safbwynt sicrhau gwerth gwell am arian neu rannu costau cyffredinol). Gall partneriaethau diogelu olygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn fwy effeithlon drwy integreiddio gwasanaethau'n well; drwy gynnwys y gymuned a'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain, sy'n bwysig (caiff hynny ei adlewyrchu'n helaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014); a thrwy ddod â phartneriaid unigol ynghyd (adnoddau ariannol, hyfforddiant ynghylch sgiliau, gwybodaeth a phobl). Gall gweithio mewn partneriaeth hefyd feithrin y gallu i ddatrys cwestiynau nad ydynt wedi'u hateb ynghylch polisi (wrth i fwy o syniadau lifo neu wrth i randdeiliaid gydweithio â'i gilydd). At hynny, gall manteision eraill gynnwys mwy o ddealltwriaeth a mwy o ymddiriedaeth rhwng asiantaethau, sy'n arwain at barodrwydd i fentro'n ofalus, gwella potensial ar gyfer gwreiddioldeb, a gwella canlyniadau terfynol. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae Fox a Butler (2004) a Percy-Smith (2006) wedi nodi dau brif fudd sy'n deillio o ddulliau gweithio amlasiantaeth: (1) gwasanaethau'n cael eu darparu yn well/yn fwy effeithiol a (2) problemau'n cael eu datrys ar y cyd.

### Effaith fframwaith amlasiantaeth

Wrth ystyried effaith fframwaith amlasiantaeth, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu tri maes ymholi, sef yr effaith ar:

1. Gweithwyr proffesiynol
2. Defnyddwyr gwasanaeth

### 3. Yr asiantaethau eu hunain.

Yn y lle cyntaf, canfu Atkinson et al. (2007, t. 30) fod yr effaith ar y gweithwyr proffesiynol ar bedair lefel: *Iles personol* (roedd y gweithwyr proffesiynol o'r farn bod dulliau gweithio amlasiantaeth yn rhoi boddhad a mwynhad iddynt ac yn eu hysgogi); *datblygiad proffesiynol* (mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau asiantaethau partner, mwy o rwydweithio personol a mwy o gyfleoedd i gael hyfforddiant pellach); *hunaniaeth broffesiynol* (mwy o atebolrwydd, dryswch ynghylch rolau a hunaniaeth broffesiynol, ansicrwydd ynghylch statws proffesiynol); ac *arferion gweithio* (cyfathrebu gwell rhwng asiantaethau/gwasanaethau, rhyngweithio gwell ymhlith gweithwyr proffesiynol, asiantaethau eraill yn fwy hygyrch, gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn fwy hygyrch, mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth a datrys problemau, llwyth gwaith gweithwyr proffesiynol unigol yn fwy, y posibilrwydd y gallai dyblygu ddigwydd).

Wrth archwilio'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cafodd dwy lefel eu nodi: *gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth* (mynediad haws/mwy buan i wasanaethau, achosion yn cael eu cyfeirio at asiantaethau priodol, mwy o ffocws ar atal/ymyrryd yn gynnar a llai o angen i gael mynediad i wasanaethau arbenigol, llai o stigma ynghlwm wrth gael mynediad i wasanaethau); a *bywydau gwell* (cymorth ac arweiniad gwell).

Yn olaf, yr effaith ar yr asiantaethau eu hunain (mwy o alw ar wasanaethau/asiantaethau, mwy o gydb berthnasau rhyngasiantaethol cadarnhaol, cyfathrebu gwell rhwng asiantaethau, data'n cael ei rannu'n well ac arbedion effeithlonrwydd).

#### [Adnabod arferion effeithiol ar gyfer Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth: Beth yw trefniadau da?](#)


Mae cyflwyno Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth fel trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer diogelu gweithredol, a briodolir i Nigel Boulton (Golden et al., 2011), yn enghraifft ddiweddar lle mae ymarferwyr amlasiantaeth yn rhannu'r cyfrifoldeb am adnabod a rheoli, cyn gynted ag y bo modd, sefyllfa lle mae rhywun yn agored i niwed. Drwy gydleoli asiantaethau diogelu, roedd Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth yn ceisio symud tuag at ddull mwy cydweithredol o weithredu, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd bod penderfyniadau diogelu yn holistaidd, yn effeithiol ac yn fwy rhagweithiol (Cullinan, 2013; Hanson et al., 2015).

Ers 2010, mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi ymgorffori fframwaith Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth yn eu harferion diogelu, sydd wedi'i gwneud yn bosibl adnabod a llenwi'r bylchau sydd mewn dulliau traddodiadol o weithio mewn modd ynysig. Er nad oes diffiniad cyfreithiol o Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn bodoli, mae'r Swyddfa

Gartref (2014) yn cydnabod bod y rhan fwyaf o fframweithiau Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth yn seiliedig ar dair elfen graidd:

1. Rhannu gwybodaeth
2. Gwneud penderfyniadau ar y cyd
3. Ymyrryd mewn modd cydgysylltiedig.

Ffigur 4. Enghraifft o broses Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (ffynhonnell: Shorrock, McManus a Kirby, 2019a)



Fodd bynnag, cydnabuwyd bod dulliau gweithredu awdurdodau lleol a heddluoedd wedi amrywio o fewn eu hardal ac ar draws y DU oherwydd nad oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol/statudol ar gael ac nad oes unrhyw ganllawiau ar gael ynghylch sut mae sefydlu'r trefniadau diogelu gweithredol mwy ffurfiol hyn neu'r prosesau sy'n rhan ohonynt (Shorrock, McManus, Kirby, 2019a, 2019b). Nid yw troi argymhellion Deddfau, polisïau a chanllawiau yn arferion pob dydd wedi bod yn dasg hawdd erioed, oherwydd mae partneriaethau amlasiantaeth yn ffurfiau cymhleth ar ryngweithio cymdeithasol, sy'n gofyn am aildrafod grym, rheolaeth ac awdurdod a all groesi amryw ffiniau proffesiynol (Harris ac Allen, 2011, t. 406). Rhybuddiodd Morrison (1996) fod partneriaethau a threfniadau cydweithredu'n angenrheidiol ond nad oeddent yn gwarantu prosesau diogelu a oedd yn gwbl rydd rhag gwrthdaro.

Eto i gyd, er gwaetha'r pwys sydd wedi'i roi ar y dair elfen graidd hyn, mae amryw fodelau a nodweddion partneriaethau amlasiantaeth wedi dod i'r amlwg, ac nid yw academyddion ac asiantaethau wedi gallu cytuno ar un fframwaith penodol. Cynigiodd Watson et al. (2002) fod

yna dri math cyffredinol o gydweithio amlasiantaeth. Y math cyntaf oedd gwaith amlddisgyblaethol a gafodd ei ddiffinio fel sefyllfa lle mae un asiantaeth yn cydlynu'n anaml ag asiantaethau eraill ac yn dewis canolbwyntio'n hytrach ar ei blaenoriaethau ei hun. Ar y llaw arall, roedd gwaith rhyngddisgyblaethol yn golygu bod asiantaethau unigol yn asesu anghenion unigol ac yna'n cwrdd ag asiantaethau eraill i drafod canfyddiadau a phennu nodau. Yn olaf, roedd gwaith trawsddisgyblaethol yn seiliedig ar gael gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'i gilydd i rannu nodau, gwybodaeth a chyfrifoldebau.

Yn yr un modd, mae Cheminais (2009) yn cyfeirio at y pum gradd o bartneriaeth amlasiantaeth. Yn y model hwnnw, cafodd termau megis cydfodoli, cydlynu a chydberchenogi eu defnyddio i ddisgrifio continwwm o ryngweithio amlasiantaeth. Roedd Cheminais, felly, yn dadlau y gallai partneriaethau amrywio o sefyllfa lle caiff rôl a chyfrifoldebau asiantaeth eu hegluro (h.y. cydfodoli) i sefyllfa lle mae asiantaethau'n ymrwymo i nod cyffredin ac yn addasu eu harferion er mwyn cyrraedd y nod hwnnw (h.y. cydberchenogi). Model olaf ar gyfer partneriaeth amlasiantaeth yw Ysgol Gyfranogiad Wilcox (Wilcox, 1994) y gwnaeth Ysgol Gyfranogiad Dinasyddion Arnstein ddylanwadu arni (Arnstein, 1969). Yn yr un modd â'r modelau eraill y soniwyd amdanynt, roedd ysgol Wilcox yn cydnabod yr amryw lefelau o gyfranogiad sydd i'w cael. Barnwyd mai cam un, 'y cam gwybodaeth', oedd y lefel isaf o gyfranogiad a rheolaeth ac mai cam pump, 'y cam cynorthwyo,' oedd â'r lefel uchaf o gyfranogiad a rheolaeth.

O ganlyniad, mae'r ystod o fodolau amlasiantaeth yn eang, sy'n adlewyrchu'r rheswm pam y mae academyddion a gweithwyr proffesiynol yn ei chael yn anodd cytuno ar un fframwaith cydweithredu. Fodd bynnag, roedd pob un o'r modelau y sonnir amdanynt yma a'r modelau a anwybyddwyd (Cameron a Lart 2003, Atkinson et al., 2002) yn cydnabod bod partneriaethau'n gallu amrywio o gysylltiad syml i berthynas fwy cymhleth. Gellir dadlau, felly, bod angen i rai nodweddion fod yn bresennol er mwyn i bartneriaeth amlasiantaeth gael ei sefydlu'n llwyddiannus. Yna, cynigiodd Miller a McNicholl (2003) fod y nodweddion craidd sy'n ofynnol ar gyfer cydweithredu effeithiol yn cynnwys:

- Systemau rheoli unedig
- Cronfeydd arian cyfun
- Trefniadau llywodraethu cyffredin amlasiantaeth
- Hyfforddiant a rennir a systemau integredig ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Yn ôl Dunn et al. (2000), mae systemau rheoli unedig yn elfen hanfodol o bartneriaethau rhyngasiantaethol ac mae angen i gydberthnasau gwaith gael eu creu ar sail ymddiriedaeth a

pharch gan bawb at ei gilydd. At hynny, mae angen i bartneriaethau rhyngasiantaethol egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn y bartneriaeth yn ogystal â nodi lefelau awdurdod ac atebolrwydd. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen i bartneriaethau benodi arweinwyr sydd â phriodoleddau penodol (Atkinson et al., 2007), drafftio amserlen a gytunwyd ar gyfer gweithredu newid (Sloper, 2004) a chynnal cyfarfodydd achos yn rheolaidd (Salmon a Rapport, 2005). At hynny, dadl Convery (1998) oedd bod angen i unigolion gael cymorth pobl eraill i'w gwneud yn bosibl iddynt fyfyrion'adeiladol ac yn hunanfeirniadol, er mwyn i bartneriaeth allu datblygu. Yn ogystal â dileu camgymeriadau'r gorffennol, mae hynny hefyd yn creu cyfle i ddysgu o'r camgymeriadau hynny. Daeth Abbott a chydweithwyr Abbott (2005) i'r casgliad, felly, bod ar drefniadau effeithiol ac effeithlon angen i weithwyr proffesiynol weithio ar draws eu ffiniau traddodiadol, gan addasu eu rôl a'u chyfrifoldebau er mwyn bodloni gofynion dulliau gweithio integredig. Fodd bynnag, dadl Feng a chydweithwyr Feng (2010) oedd ei bod yn hawdd i weithwyr proffesiynol gael rolau pendant ond ei bod yn anos cymell unigolion i weithredu fel tîm effeithiol. At hynny, nododd Ehrle a chydweithwyr Ehrle (2004) y gallai anghytundebau o'r fath arwain at golli cyfeiriad ac ymrwymiad yng nghyswllt y bartneriaeth. Felly, os bwriedir i systemau rheoli unedig ennill eu plwyf, roedd Crockett et al. (2013) yn dadlau bod yn rhaid i ddiwylliannau asiantaethau uno, er bod hynny'n arwain at heriau sylweddol. Yn y bôn, mae dulliau proffesiynol o ddiogelu'n amrywio ac mae asiantaethau'n defnyddio iaith a theminoleg wahanol i ddisgrifio problemau a phrosesau tebyg.

Un dylanwad allweddol yw trefniadau llywodraethu cyffredin. Nododd Shorrock, McManus a Kirby (2019b) ei bod yn bosibl mai'r ffactor hwnnw yw'r un hawsaf i'w sicrhau, gan fod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr un amgylchedd fel rheol yn ymdrechu i gyflawni'r un canlyniadau. Er mwyn sicrhau trefniadau llywodraethu cyffredin amlasiantaeth, roedd Huxham a Vaugen (2000) yn argymhell cyflwyno dangosyddion perfformiad a nodau a rennir, ac roedd Atkinson a chydweithwyr Atkinson (2002) o'r farn bod datblygu nodau ac amcanion a rennir yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai agendâu asiantaethau unigol yn parhau. Gyda llaw, daeth Scott a Bruce (1994) i'r casgliad bod staff a oedd yn credu yn awydd eu hasiantaethau i arloesi'n fwy tebygol o ymwneud â phartneriaethau amlasiantaeth, a oedd felly'n cadarnhau'r gred bod trefniadau llywodraethu cyffredin yn gallu cael eu sicrhau drwy gyflwyno nodau a gwerthoedd a rennir.

Un ffactor pwysig olaf yw integreiddio systemau rhannu gwybodaeth, sy'n golygu bod modd cyfathrebu'n effeithiol ac yn effeithlon (Atkinson et al., 2007; Salmon et al., 2005). Roedd ymchwil gan Miller ac Ahmed (2000) ynghyd ag argymhellion yr Arglwydd Laming (2003) yn cydnabod bod llwyddiant unrhyw gydweithredu'n dibynnu ar gyflwyno iaith gyffredin. Yn yr un modd, canfu Pinkney et al. (2008) mai un o brif gryfderau partneriaethau amlasiantaeth, yn ôl

gweithwyr cymdeithasol, oedd y gallu i rannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Felly, mae effeithiolrwydd partneriaeth amlasiantaeth yn dibynnu ar ddigon o rannu gwybodaeth, yn enwedig systemau TGCh, sy'n galluogi asiantaethau i gael gafael yn gyflym ac yn hwylus ar unrhyw wybodaeth berthnasol. Fel yr oedd Lewis (2006) yn dadlau, mae gan ddulliau electronig o storio a chyfnwid gwybodaeth y gallu i wella cyfathrebu, a sicrhau ar yr un pryd bod gwybodaeth yn parhau'n ddiogel ac yn gyfrinachol. Felly, gall systemau gwybodaeth integredig helpu i bontio a hwyluso llif cyfathrebu, gan roi cyfle i asiantaethau gefnu ar ddulliau ynysig o weithio a throi at ddulliau ar y cyd o wneud penderfyniadau.

Mae amlinellu gofynion partneriaethau amlasiantaeth yn dangos pa mor gymhleth yw cyflwyno arferion gweithio cydweithredol. Mae hynny'n ategu datganiad Van Eyk a Baum (2002), sef nad yw cydweithredu rhyngasiantaethol yn digwydd yn awtomatig a bod angen iddo gael ei gynllunio a'i orfodi. At hynny, dadl Jones a Gallop (2003) yw bod cyfyngiadau amser yn rhwystro'r broses o ddechrau partneriaethau amlasiantaeth a'u galluogi i barhau, oherwydd bod gormod i'w wneud a diffyg amser i'w gyflawni.

Felly, er bod egwyddorion partneriaethau amlasiantaeth efallai'n ddeniadol ac yn fanteisiol mewn theori, mae heriau niferus yn ymddangos wrth geisio sicrhau cydweithredu rhyngasiantaethol yn ymarferol. Fodd bynnag, nid yw polisiâu ac ymarferwyr wedi'u hatal gan yr heriau sy'n ymwneud â gweithredu partneriaethau amlasiantaeth. Mewn gwirionedd, mae'r ymatebion diweddaraf i sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed wedi'u seilio ar greu a gweithredu Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth. Mae hynny'n awgrymu bod gweithwyr proffesiynol yn barod i gydweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i unigolion agored i niwed, er bod gweithio mewn partneriaeth yn gallu bod yn gymhleth ac yn feichus.

### Trefniadau diogelu amlasiantaeth: ffactorau eraill i'w hystyried

Dros y degawd diwethaf, mae Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth wedi cael mwy o sylw wrth i ragor o awdurdodau lleol sefydlu Canolfan o'r fath neu ystyried cynlluniau ar gyfer Canolfan o'r fath yn rhan o'u harferion diogelu. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil sy'n archwilio sut y mae Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth wedi gwella'r modd y caiff risg ei hadnabod a'i rheoli wedi cael ei esgeuluso. Mae hynny wedi ei gwneud yn fwyfwy anodd gweld a yw manteision damcaniaethol y fframwaith Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth wedi cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus i arferion diogelu (Shorrock, McManus a Kirby, 2019a/b). Mae hynny'n arwain at y cwestiwn hwn, sef beth yn union yw 'da' mewn trefniadau diogelu amlasiantaeth? Bydd yr adran hon o'r adolygiad yn ystyried trefniadau diogelu amlasiantaeth, ac yn benodol ymarfer o ran polisi'n ymwneud â Chanolfannau Diogelu Amlasiantaeth o safbwynt bod yn ddull

gweithredu 'Drws Ffrynt' effeithiol, ynghyd â datblygiadau diweddar megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

### Beth sy'n gwneud dull 'Drws Ffrynt' da?

Wrth drafod beth sy'n gwneud 'Drws Ffrynt' effeithiol<sup>4</sup> dywedodd Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Ofsted, Eleanor Schooling (2017), fod demograffeg gymdeithasol yn gallu chwarae rhan bwysig wrth lunio'r ymateb mwyaf priodol ac effeithiol i risg a sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed. Mae Schooling yn cydnabod bod enwau gwahanol ar wahanol fodolau mewn gwahanol fannau, megis Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth neu 'wasanaeth cyswllt ac atgyfeirio', ond nad ydynt yn cael eu defnyddio bob amser i ddisgrifio'r un peth. At hynny, mae'n bosibl na fydd yr hyn y gwelir ei fod yn gweithio mewn un lleoliad yn gweithio o reidrydd mewn lleoliad arall. Felly, mae angen archwilio lleoliadau o safbwynt eu hanes lleol, yn enwedig bywgraffiadau grwpiau/cymunedau (Fraser, 2017). Fel y mae Schooling (2017) yn nodi wedyn:

Every area will have different challenges around multi-agency working and ensuring that children and their families get the right help at the right time. The best authorities will continue to develop ways of working that best meet these local challenges as they change over time (para. 4.).

Er gwaethaf yr amrywiaeth perthnasol hwn mewn dulliau 'Drws Ffrynt', un peth sydd wedi dod yn fwyfwy clir yw bod datblygu dull amlasiantaeth o ddiogelu yn elfen hollbwysig o ymarfer effeithiol. Fel y noda Shorrocks, McManus a Kirby (2019b):

Serious case reviews have concluded that a lack of information sharing between agencies has resulted in vulnerable individuals being unnecessarily exposed to harmful or abusive situations (Preston-Shoot, 2017). In response to such criticisms, safeguarding policies and guidelines now advocate a need for safeguarding agencies to work more collaboratively, so that vulnerability can be identified and managed at the earliest opportunity (Care Act, 2014) (t. 9).

---

<sup>4</sup> Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru (2019): "mae angen i awdurdodau fod wedi creu 'drws blaen' cynhwysfawr i ofal cymdeithasol; bod â systemau effeithiol ar waith er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol a phwrpasol i'r rhai sy'n cysylltu â nhw i gael cymorth – gelwir hyn yn wasanaeth 'IAA' yn aml. Bydd gwasanaeth IAA effeithiol yn cyfeirio pobl i wasanaethau ataliol a chymunedol, ac yn nodi pryd y mae angen asesiad neu gymorth mwy arbenigol ar rywun" (t.6).

Er mwyn sicrhau hynny, mae angen cyflwyno sawl nodwedd sy'n cynnwys:

- Yr angen am eglurder ynghylch pa wybodaeth y gellir ac y dylid ei rhannu. Dylai fod gan bob asiantaeth a phob gweithiwr proffesiynol ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ar wahân i'w gilydd a thuag at ei gilydd (Schooling, 2017).
- Er mwyn mynd i'r afael â'r uchod, dylid cyflwyno rhaniad clir o ran llafur a hierarchaeth o ran awdurdod (cadwyn gydlynu) (Jaques, 2017). Dylai hynny olygu cytuno ar y cyd ar reolau a gweithdrefnau y dylid eu hegluro wrth bob ymarferydd o'r cychwyn cyntaf. Yn ddelfrydol, dylid ffurfioli hynny drwy lunio llawlyfrau/arweinlyfrau neu ganllawiau clir, o leiaf (Walter et al., 2015).
- Mynediad haws ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Mae Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth Croydon yn enghraifft o hynny, lle gall aelodau'r cyhoedd gael gafael ar weithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd, drwy'r dderbynfa yn swyddfeydd lleol y cyngor. Mae Schooling (2017) wedi nodi bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n arbennig o dda gan bobl ifanc y mae ganddynt broblemau llety. Mae Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth Croydon wedi datblygu'r Pwynt Cyswllt Unigol sy'n cynnwys staff Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ac 'Easy Help', a chaiff achos pob plentyn sy'n cael ei atgyfeirio er mwyn cael cymorth o ran lles emosiynol ac iechyd meddwl ei gydlynu drwy'r Pwynt Cyswllt Unigol.
- O ran sefyllfaoedd lle mae plant yn agored i niwed, dylid sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae Schooling (2017) yn awgrymu y dylai ymarferwyr fynd i'r afael â chwestiynau megis: Beth yw profiad y plentyn hwn? Pa fath o amgylchedd y mae wedi cael ei fagu ynddo, o ran ei rieni? Sut beth yw bywyd o ddydd i ddydd i'r plentyn hwn? A beth yw'r ymateb wedi'i deilwra fwyaf a fydd yn diwallu anghenion y plentyn (e.e. fframwaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)?
- Cymorth ar gyfer ymarferwyr rheng flaen (y gweithwyr cymdeithasol). Er mwyn cyflawni hynny, dylid meithrin diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Un sylw pwysig gan Schooling (2017) yw bod gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithredu wrth y 'Drws Ffrynt' yn gallu cael eu dadsensiteiddio i'r risgiau difrifol, oherwydd maint llwythi achosion ac oherwydd y broses sydyn ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gellir datrys y broblem honno drwy gylchdroi staff a chael aelodau o staff craidd sy'n ffynnu yn yr amgylchedd 'Drws Ffrynt'. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn ffordd dda o gyflwyno staff amhrofiadol i'r system.

Wrth grynhoi beth sy'n gwneud dull 'Drws Ffrynt' amlasiantaeth effeithiol, dywed Schooling (2017) fod cefnogi staff 'Drws Ffrynt' yn dda yn rhan annatod o wasanaeth 'Drws Ffrynt' da.

Mae gofalu am staff a'u helpu i fod yn fedrus ac yn hyderus wrth wneud penderfyniadau'n rhan bwysig o gael pethau'n iawn i blant (para. 42).

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'i oblygiadau ar gyfer gwaith diogelu amlasiantaeth:

Mae a wnelo diogelu â chadw pobl o bob oed yn ddiogel rhag niwed. Mae gwneud hynny'n gofyn am storio cryn dipyn o ddata personol a chael mynediad iddo. Mae cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a weithredwyd ar 18 Mai 2018 yn golygu bod y modd y caiff data ei storio wedi newid. Mae'r rheoliad newydd yn golygu nid yn unig bod angen cynnal mwy o archwiliadau o'r modd y caiff data ei ddiogelu a'i ddiweddarau ond hefyd ei bod yn haws i unigolyn dynnu'n ôl ei ganiatâd i sefydliad ddefnyddio ei ddata; gofyn am i'r data gael ei drosglwyddo i ddarparwr arall; neu ofyn am iddo gael ei ddileu'n gyfan gwbl o'r adnodd storio. Felly, beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer trefniadau diogelu amlasiantaeth ac ar gyfer rhannu gwybodaeth?

Mae'r canllaw anstatudol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (2019c) ynghylch Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn nodi canllawiau ynghylch rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant, gan ddefnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n cynnwys llawer o sylwadau ynghylch egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac mae'n cynnwys canllaw chwalu'r mythau. Mae'r canllaw hwnnw'n nodi bod rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr a sefydliadau yn:

...hanfodol er mwyn gallu pennu, asesu, rheoli risgiau a darparu gwasanaethau'n effeithiol. Ni ellir gadael i ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu camdrin neu eu hesgeuluso. (Llywodraeth Cymru, 2019c, t.11).

Mae'r ddogfen ganllawiau yn rhoi pwys ar ddefnyddio barn broffesiynol wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth, gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol. Rhoddir pwys hefyd ar ystyried nifer o egwyddorion allweddol megis a yw'r wybodaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur, yn berthnasol, yn ddigonol, yn fanwl gywir, yn amserol ac yn ddiogel, a'r ffaith y dylai hynny gael ei gofnodi (tt. 9-10).

## Crynhoi

Mae'r adran hon wedi ceisio adolygu'r llenyddiaeth fwyaf perthnasol am ddiogelu, gan roi pwys penodol ar y modd y caiff Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth eu rhoi ar waith. Wrth wneud

hynny, mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at nifer o broblemau a systemau y gellir eu crynhoi i bedwar maes allweddol.

Yn gyntaf, cafodd cerrig milltir allweddol o ran polisi, deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer diogelu yng Nghymru eu hamlinellu, gan ystyried datblygiadau diweddar dan y gweithdrefnau newydd, sef Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a chanolbwyntio ar roi statws statudol cyfartal i'r modd y caiff oedolion a phlant agored i niwed eu trin. Yna, mae'n rhoi sylw i ystadegau ac ymchwil allweddol ledled Cymru ynghylch plant ac oedolion agored i niwed, gan echdynnu data gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae rhannau eraill yn archwilio realiti rhoi dull diogelu amlasiantaeth ar waith yn ymarferol, gan ganolbwyntio ar y model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth a'r dystiolaeth (neu'r diffyg tystiolaeth) ynghylch ei effeithiolrwydd a gofyn 'beth yw trefniadau da?'. Yn olaf, caiff effaith y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ei harchwilio ynghyd â'r arfer o rannu gwybodaeth ym maes diogelu.

## Methodoleg

### Nodau'r astudiaeth bresennol

Yn rhan o 'Gam 1', mae dwy elfen allweddol y mae angen i'r gwaith gwerthuso eu cyflawni:

1. Adolygiad llenyddiaeth llawn ar lefel genedlaethol/y DU o drefniadau diogelu amlasiantaeth ar gyfer oedolion a phlant (y dull 'Drws Ffrynt')
2. Pennu hyd a lled y trefniadau presennol sydd ar waith yng Nghymru, a'u nodweddion allweddol.

Yn ogystal, mae'r adroddiad gwerthuso yn ceisio:

- Nodi nodweddion allweddol trefniadau diogelu amlasiantaeth effeithiol, sy'n cynnwys cymariaethau â gweithgarwch un asiantaeth yn unig pan nad oes cydleoli'n digwydd neu pan nad oes trefniadau a berchenogir/a reolir ar y cyd yn bodoli, a gwerthusiad o effeithiolrwydd trefniadau i sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol
- Nodi nodweddion sy'n galluogi neu'n atal effeithiolrwydd trefniadau neu fodelau o safbwynt hwyluso mynediad gan oedolion/plant i wasanaethau ehangach sy'n fwy neu'n llai dwys, gan sicrhau eu bod yn dal i gael eu hamddiffyn
- Darparu tystiolaeth o'r hyn a wyddys am effeithiolrwydd a therfynau Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth – gan gynnwys y canlyniadau i blant ac oedolion
- Darparu cyd-destun ar gyfer y trefniadau a nodwyd a'r cyfleoedd sydd i fabwysiadu dulliau gweithredu amgen, o safbwynt ffactorau demograffig rhanbarthol, ffactorau'n ymwneud â phrinder/amlder, ffactorau daearyddol neu ffactorau unigryw eraill.

### Dylunio a data

Wrth benderfynu sut i adnabod arweinwyr diogelu priodol ar draws y 22 o awdurdodau lleol sydd yng Nghymru, anfonodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol lythyr gyda thudalen friffio am y gwerthusiad at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y llythyrau'n gofyn i bobl gymryd rhan yn y gwerthusiad a'i gynorthwyo, ac yn gofyn am i wybodaeth gael ei darparu am 'arweinydd diogelu enwebedig' priodol ar gyfer eu hardal. Cafodd y rhestr honno ei llunio gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'i hanfon at y tîm gwerthuso. Yna, cysylltwyd â phob arweinydd diogelu enwebedig unigol drwy ebost a oedd yn cynnig cyfle iddynt ymwneud â'r gwerthusiad drwy gyfweiliad dros y ffôn. Roedd yr ebost yn cynnwys copiâu Cymraeg a Saesneg o'r canlynol:

- Taflen wybodaeth i gyfranogwyr (a oedd yn disgrifio pob agwedd ar yr astudiaeth)
- Ffurflen ganiatâd (i'r cyfweiliad gael ei gynnal a'i recordio).

Oherwydd bod cyfnod y gwerthusiad yn cyd-daro â'r adeg pan ddaeth cyfyngiadau Covid-19 i rym, cynigiwyd cyfle i'r gyfranogwyr ddychwelyd eu hatebion i gwestiynau'r cyfweiliad mewn dogfen Word drwy ebost. Gwnaed hynny er mwyn cydnabod yr effaith debygol yr oedd y cynnydd mewn galw, newidiadau i rolau, a salwch posibl oherwydd Covid-yn ei chael ar wasanaethau diogelu allweddol. Felly, cafodd dogfen arolwg dros y ffôn, ar ffurf arolwg agored, ei darparu hefyd yn yr ebost cyntaf a anfonwyd at y cyfranogwyr. Mae mwy o fanylion i'w cael yn yr Atodiadau.

#### Data:

Cymerodd o leiaf un arweinydd diogelu o bob awdurdod lleol ran yn yr astudiaeth, felly cafodd pob ardal yng Nghymru ei chynrychioli. Er hynny, oherwydd strwythur timau diogelu, cafwyd rhestr a oedd yn cynnwys 33 o enwau gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Y rheswm am hynny oedd bod rhai awdurdodau lleol wedi darparu enwau ar wahân ar gyfer arweinydd diogelu oedolion ac arweinydd diogelu plant.

O blith y 33 o dimau 'Drws Ffrynt' y cysylltwyd â nhw, cafodd dau eu heithrio o'r prif ddadansoddiad ansoddol oherwydd eu bod yn arweinwyr heddlu a'u bod yn cynrychioli trefniadau diogelu rhanbarthol<sup>5</sup>. Ni wnaeth dau arweinydd enwebedig gymryd rhan yn yr astudiaeth, ond cafodd data o'u hawdurdod lleol ei gofnodi gan gyfranogwyr eraill. Yn sgil hynny, roedd 29 o gyfweiliadau ac arolygon yn weddill yn y set ddata: roedd 22 (76%) ohonynt yn gyfweiliadau, roedd chwech (21%) yn arolygon ac roedd un ymateb yn cynnwys arolwg a chyfweiliad. Ar gyfer pedwar cyfweiliad, roedd dau neu fwy o unigolion yn bresennol ac yn medru rhoi safbwyntiau ar amryw agweddau ar ddiogelu (e.e. plant ac oedolion), a oedd yn golygu bod cyfanswm o 36 o arweinwyr diogelu wedi cyfrannu i'r set ddata. Roedd y cyfweiliadau rhwng 34 munud a 100 munud o hyd, a chyfartaledd hyd cyfweiliad oedd 53 munud. Cafodd data ei gasglu o 20 Ebrill 2020 ymlaen a chafodd y cyfweiliad olaf ei gynnal ar 4 Mehefin 2020.

Roedd pob un o'r gyfranogwyr yn arweinwyr yn y gwasanaethau diogelu yr oeddent yn eu cynrychioli. Cafodd y sampl hon ei recriwtio er mwyn cadarnhau'r trefniadau diogelu presennol sydd ar waith ar draws Cymru ac, yn benodol, er mwyn cofnodi nodweddion allweddol sy'n

---

<sup>5</sup> Er na chafodd data eu cyfweiliadau ei gynnwys yn nadansoddiad thematig NVivo, helpodd eu hymatebion i lunio'r map o drefniadau diogelu a'r argymhellion ar gyfer Cam 2.

galluogi neu'n atal effeithiolrwydd trefniadau. Mae dadansoddiad o rifau adnabod cyfranogwyr ac o'r ardal a gâi ei chynrychioli i'w gweld yn Nhabl 1 isod er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer y dyfyniadau sydd wedi'u defnyddio.

Tabl 3. Cyd-destun cyfranogwyr

<b>Rhif adnabod y cyfranogwr</b>	<b>Awdurdod lleol</b>	<b>Gwasanaeth/Asiantaeth</b>
P1	Rhondda Cynon Taf	Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf
P2	Castell-nedd Port Talbot/Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg	Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot
P3	Caerffili	Gwasanaethau Plant Caerffili
P5	Conwy	Gwasanaeth Ymyriadau a Chymorth i Deuluoedd (y Cyngor)
P6	Torfaen	Gwasanaethau Plant Torfaen
P7	Gwynedd	Gwasanaethau Oedolion Gwynedd
P8	Gwynedd	Gwasanaethau Plant Gwynedd
P9	Pen-y-bont ar Ogwr	Y Gyfarwyddiaeth Plant
P10	Sir Gaerfyrddin	Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin
P11	Rhondda Cynon Taf	Gwasanaethau Oedolion Rhondda Cynon Taf
P12	Powys	'Drws Ffrynt' Powys
P13*	Abertawe	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
P14	Blaenau Gwent	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Plant)
P15	Blaenau Gwent	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Oedolion)
P16	Ynys Môn	Rheolwr Gwasanaethau (Diogelu ac Ansawdd)
P17	Bro Morgannwg	Gwasanaethau Plant Bro Morgannwg
P18	Casnewydd	Cyngor Dinas Casnewydd
P19	Sir Gaerfyrddin	Adran Gymunedau Cyngor Sir Gaerfyrddin
P21	Ceredigion	Diogelu Oedolion a Phlant, Cyngor Ceredigion
P22	Sir Benfro	Tîm Diogelu Oedolion Sir Benfro
P23	Sir Benfro	Amddiffyn Plant a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Sir Penfro
P24	Powys	Assist a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Powys
P26	Sir y Fflint	Diogelu a Chomisiynu, Cyngor Sir y Fflint
P28	Wrecsam	Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
P29	Merthyr	Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful
P30*	Caerdydd	Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Caerdydd
P31	Sir Ddinbych	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych
P32	Sir Ddinbych	Uned Ddiogelu ac Adolygu, Cyngor Sir Ddinbych
P33	Sir Fynwy	Gwasanaethau Plant Sir Fynwy

Cafodd yr ymatebion yn yr arolygon a'r cyfweiliadau eu hallforio i ddogfen Excel Microsoft er mwyn codio ymatebion caeëdig, a chawsant eu mewnfario i Feddalwedd Dadansoddi Data Ansoddol NVivo er mwyn llunio dadansoddiad ansoddol. Cafodd yr arolygon eu dadansoddi'n thematig mewn modd *anwythol* (sy'n cael ei arwain gan batrymau sy'n dod i'r amlwg yn y set

ddata) ac mewn modd *didwythol* (sy'n chwilio am gysyniadau penodol a nodwyd yn flaenorol yn y llenyddiaeth berthnasol) a chafodd y gwaith hwnnw ei gyflawni mewn nifer o gamau:

1. Darllen y data ac amlygu unrhyw ddyfyniadau a oedd yn ddiddorol, yn berthnasol ac yn ystyrlon at ddibenion nodau'r ymchwil;
2. Adolygu'r dyfyniadau a amlygwyd er mwyn chwilio am batrymau ar draws cyfranogwyr;
3. Categori patrymau yn y data i themâu ac is-themâu cysylltiedig, lle caiff dyfyniadau sy'n cyfeirio at yr un cysyniad, yr un gred neu'r un syniad eu rhoi yn yr un categori.

## Ystyriaethau moesegol

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol John Moores Lerpwl (cyf.: 20/LAW/005). Cafodd pob un o'r cyfranogwyr daflen wybodaeth i gyfranogwyr a ffurflen ganiatâd, a chawsant gynnig cymryd rhan drwy gyfweiliad dros y ffôn neu drwy alwad cynhadledd fideo ar Microsoft Teams, a fyddai'n cael eu recordio, eu trawsgrifio a'u dadansoddi. Roedd pob un o'r dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chafodd cyfweiliadau eu cynnig gyda gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd ar gyfer y Gymraeg.

## Canlyniadau

### Cyflwyniad

Esgorodd y dadansoddiad ansoddol o'r 29 o gyfweiliadau ac arolygon ar bedair prif thema, ac mae gan bob un o'r themâu hynny gyfres o is-themâu (gweler Tabl 2):

1. Nodau'r fenter
2. System 'Drws Ffrynt'
3. Partneriaeth
4. Myfyrio.

Bydd pob un o'r themâu a'r is-themâu cysylltiedig yn cael eu trafod yn eu tro. Bydd ffigurau'n cael eu darparu hefyd ar gyfer pob un o'r prif themâu er mwyn gallu gweld cysylltiadau'r is-themâu.

Tabl 4. Themâu ac is-themâu gyda gwybodaeth am amllder

<b>THEMÂU</b>	<b><i>Is-themâu</i></b>	<b>Cyfranogwyr<sup>1</sup></b>	<b>Amllder<sup>2</sup></b>
<b>1: NODAU</b>	<i>Diogelu</i>	20 (69%)	23
	<i>Cynorthwyo ac amddiffyn pobl</i>	14 (48%)	22
	<i>Sicrhau system effeithiol a chydgysylltiedig</i>	18 (62%)	51
	<i>Gwneud penderfyniad gwybodus</i>	15 (52%)	36
<b>2: SYSTEM 'DRWS FFRYNT'</b>	<i>Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a/neu Bwynt Mynediad Unigol/Pwynt Cyswllt Unigol</i>	18 (62%)	28
	<i>Y broses</i>	29 (100%)	193
	<i>Systemau ar wahân</i>	18 (62%)	50
	<i>Arweinyddiaeth</i>	27 (93%)	85
<b>3: TREFNIADAETH PARTNERIAETH</b>	<i>Gwaith amlasiantaeth</i>	25 (86%)	85
	<i>Strwythur timau</i>	24 (83%)	37
	<i>Cytleoli</i>	28 (97%)	52
	<i>Rhannu gwybodaeth</i>	28 (97%)	65
<b>4: MYFYRIO</b>	<i>Canolfannau Diogelu</i>	7 (24%)	15
	<i>Amlasiantaeth – a ydynt yn effeithiol ai peidio?</i>		
	<i>COVID-19</i>	15 (52%)	31
	<i>Yn gweithio'n dda</i>	27 (93%)	82
	<i>Gwelliannau</i>	27 (93%)	102

<sup>1</sup> Nifer a chanran y cyfranogwyr a gyfeiriodd at yr is-thema.

<sup>2</sup> Nifer y cyfeiriadau at yr is-thema.

## Thema 1: Nodau trefniadau diogelu

Gofynnwyd yn uniongyrchol i'r cyfranogwyr i gyd am nodau eu trefniadau diogelu 'Drws Ffrynt'. Yn gyffredinol, roedd modd i'r nodau gael eu grwpio fel a ganlyn:

- Sefydlu a chynnal system effeithiol a chydgyssylltiedig
- Diogelu pobl agored i niwed ac atal y risg o niwed
- Cynorthwyo pobl.

Nid oedd yn syndod bod mwyafrif y 29 o ymatebwyr ( $n = 19$ , 66%) wedi nodi'n benodol bod diogelu ac atal niwed yn un o nodau craidd eu trefniadau 'Drws Ffrynt'. Roedd hynny'n cynnwys atal pobl rhag wynebu risg yn ogystal â diogelu pobl sydd eisoes yn agored i niwed neu sydd wedi/yn profi camdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Cafodd lleihau'r risg o niwed, neu osgoi cynyddu'r risg o niwed, eu trafod o fewn y nod hwn i ddiogelu. Roedd y nod hwn yn ymwneud â "*goblygiadau statudol*" (P18) i amddiffyn, teimladau o "*ddyletswydd a chyfrifoldeb*" personol (P32) a moto sefydliadol a gytunwyd:

*"Gwnewch fi'n ddiogel. Dyna ein slogan"* (P28).

Yn ogystal â diogelu pobl rhag niwed, cafodd cynorthwyo pobl i fyw "*bywydau hapus, iach a diogel*" (P13) ei drafod hefyd fel un o nodau'r 'Drws Ffrynt' ( $n = 14$ , 48%). Roedd hynny'n cynnwys hybu a datblygu cydnerthedd pobl ar gyfer unrhyw argyfwng yn y dyfodol a chanolbwyntio ar wella canlyniadau i unigolion. Mewn naw ymateb (31%), buodd y cyfranogwyr yn trafod yn benodol gamau i gynorthwyo unigolion gan ddefnyddio dull gweithredu 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' lle mae'r oedolyn, y plentyn neu'r teulu yn ymwneud yn llawn â'r gwasanaethau a'r cymorth y maent yn eu cael, sy'n eu galluogi i gael "*rheolaeth*" (P31) pan fo hynny'n ddiogel:

*"Creu pobl a chymunedau cydnerth nad ydynt yn dibynnu ar wasanaethau yn y dyfodol"* (P4);

*"Rhaid siarad yn gyntaf â'r oedolyn sy'n wynebu risg. Beth yw ei farn ef? Wir i chi, mae'r trafodaethau hynny mor werthfawr. Pan fyddwch yn gallu cofnodi eich bod wedi cael gwybod beth yw dymuniadau a safbwyntiau'r unigolyn ei hun. Pan fydd pobl yn dod i mewn ac yn archwilio ac yn gofyn 'Pam wnaethoch chi'r penderfyniad yna?'. Mae'n amlwg iawn pam y gwnaethoch y penderfyniad hwnnw, oherwydd mae'r cyfan gennyhych o enau'r unigolyn ei hun: beth oedd y risg, ym marn yr unigolyn, sut y dylid ei rheoli, ac a oedd am i ni weithredu ai peidio"* (P19).

Er mwyn cyflawni nodau o ran diogelu a chynorthwyo, bu 18 (62%) o'r cyfranogwyr yn trafod y ffaith bod cael system effeithiol a chydgyssylltiedig yn nod hollbwysig. Mae ymateb effeithiol a chydgyssylltiedig yn gofyn am gydweithredu amlasiantaeth ( $n = 12$ , 41%) ynghyd â systemau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ( $n = 8$ , 28%), ac ymwybyddiaeth a rennir o bwrpas ( $n = 6$ , 17%):

*“Rydym yn sicrhau’n barhaus gyda’n partneriaid bod y broses atgyfeirio’n hysbys. Hynny yw, bod ein meini prawf ar gyfer mynediad yn cael eu rhannu” (P14);*

*“Un o’r trafodaethau cyntaf a gefais gydag aelodau fy nhîm pan wnaethom ddechrau esblygu oedd bod yn rhaid iddynt ddeall beth yw pwrpas y tîm. Hynny yw, beth yw pwrpas ein gwaith? [...] Oherwydd os nad ydyn ni’n deall beth yw ein pwrpas, sut y bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn gwybod beth yw ein pwrpas” (P19).*

Roedd y cydweithredu hwn yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chyngor i asiantaethau eraill, rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau’n briodol ar sail asesiad a dealltwriaeth fwy cywir o angen ac opsiynau o ran cymorth ar draws y bartneriaeth. At hynny, yn ogystal â phrosesau sicrhau ansawdd megis diweddarau a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, trafodwyd bod rhannu arfer da ac adolygiadau achos difrifol a pharchu gwahanol asiantaethau a’u rolau (P1) er mwyn meithrin cydberthnasau yn flaenoriaeth o safbwynt hybu’r nod hwn:

*“Rydym yn ceisio sicrhau gwasanaeth cyson. A dweud y gwir, gwasanaeth cyson a chydberthnasau da ag asiantaethau eraill, dyna oedd y prif nod gan fod hynny’n ein helpu yn wirioneddol i wneud penderfyniadau” (P12).*

Y gobaith oedd bod cael system effeithiol a chydgyssylltiedig yn arwain at benderfyniadau ac asesiadau risg mwy gwybodus a oedd yn cynnwys darlun mwy, a oedd yn ei gwneud yn bosibl deall yn fwy cywir ac yn fwy effeithiol bob achos yn ei gyd-destun ( $n = 15$ , 52%):

*“I gynnal gwiriadau ochrol gydag asiantaethau partner, e.e. yn y sector iechyd a’r sector addysg, er mwyn llywio penderfyniadau [...] dadansoddi atgyfeiriadau’n drylwyr ar sail ymchwil a barn a phryderon hanesyddol er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a oes angen gofal a chymorth ac ymatebion yn syth o ran atal neu ddiogelu (P3);*

*“Bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gwneud y penderfyniadau cywir ar sail yr angen i unigolion a theuluoedd gael y cymorth angenrheidiol ar y pryd hwnnw, a ddarperir gan y bobl sydd yn y sefyllfa orau i’w ddarparu” (P4);*

*“...sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd” (P9);*

*“...gwasanaeth cyson a chydberthnasau da ag asiantaethau eraill, dyna oedd y prif nod gan fod hynny’n ein helpu yn wirioneddol i wneud penderfyniadau” (P12).*

Roedd penderfyniadau gwybodus a gwell yn cynnwys sicrhau bod yr atgyfeiriad cywir yn cael ei wneud i’r gwasanaeth cywir ( $n = 4$ , 14%) a bod ymatebion yn rhai prydlon (cyn pen 24 awr) er mwyn lleihau unrhyw oedi ar hyd y llwybr diogelu ( $n = 11$ , 38%):

*“...atgyfeirio i’r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir” (P3);*

*“...gwneud penderfyniadau cywir cyn pen un diwrnod gwaith” (P8);*

“...gwneud yn siŵr bod yr ymateb i'r pryderon sy'n dod drwy'r drws yn un gwirioneddol amserol ac effeithiol” (P19);

“Eu diogelu yn gyflym” (P28).

## Thema 2: System 'Drws Ffrynt'

Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr esbonio eu trefniadau diogelu 'Drws Ffrynt' presennol. Cafodd pwrpas y trefniant 'Drws Ffrynt' ei ddisgrifio fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cymorth a gwasanaethau diogelu (P18). Mae dadansoddiad o'r cymorth a'r gwasanaethau diogelu a gâi eu darparu gan y sampl yn gyffredinol i'w weld yn Nhabl 5.

Tabl 5. Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau cymorth<sup>6</sup>

<b>Darparu cymorth ar gyfer:</b>	<b>Nifer y trefniadau 'Drws Ffrynt' sy'n darparu'r cymorth hwn</b>	<b>Nifer y trefniadau 'Drws Ffrynt' NAD YDYNT yn darparu'r cymorth hwn</b>	<b>Nifer y trefniadau 'Drws Ffrynt' lle NAD YW'N GLIR a yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu</b>
Diogelu plant	21 (72%)	8 (28%)	0
Diogelu oedolion	17 (59%)	11 (38%)	0
Atal yn gynnar	17 (59%)	0	11 (38%)
Cam-drin domestig	21 (72%)	1 (3%)	6 (21%)
Unigolion coll	4 (14%)	1 (3%)	23 (79%)

O'r 'Drws Ffrynt', caiff asesiad ei gynnal ynghylch at bwy a/neu i ble y dylid cyfeirio'r achos. Nodwyd yn aml bod atgyfeiriadau, neu gysylltiadau wrth y 'Drws Ffrynt', yn gallu “dod o unrhyw le” (P23), er enghraifft gallent fod yn aelodau'r cyhoedd, yn heddlu neu'n asiantaethau eraill, ac ati. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod disgrifiadau o'r trefniant hwn yn gwahaniaethu ar draws y cyfranogwyr. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod y cyfranogwyr yn defnyddio'r termau 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth', 'Pwynt Mynediad Unigol', 'Pwynt Cyswllt Unigol' a 'Drws Ffrynt' mewn modd cyfnewidiol yn eu hymatebion nhw ac ar draws y cyfranogwyr. Nododd y rhan fwyaf o'r sampl ( $n = 18$ , 62%) fod yna ryw fath o system ganolog ar gyfer pob atgyfeiriad, ond nid oedd bob amser yn glir a oeddent yn cyfeirio at yr un broses/system neu at broses/system wahanol. Nododd rhai o'r cyfranogwyr fod eu mynediad 'Drws Ffrynt' nhw'n


<sup>6</sup> Noder: ni wnaeth pob un o'r cyfranogwyr roi rhestr lawn o wasanaethau, ac mae'r rhestr yn debygol o gael ei diweddarau.

digwydd drwy eu Pwynt Cyswllt Unigol, sef eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth hefyd, lle câi gwaith asesu ac atgyfeirio ei gyflawni. Eglurodd eraill fod eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn wasanaeth ar wahân a oedd yn darparu gwybodaeth yn unig, yn hytrach na'i fod yn cynnal unrhyw asesiadau gwirioneddol neu'n cyflawni unrhyw waith atgyfeirio gwirioneddol.

O safbwynt y broses sy'n sail i drefniadau diogelu, nododd 19 fod y broses yn 'ffurfiol', nododd dau ei bod yn 'anffurfiol', nododd un ei bod yn 'gymysg' ac ni chafwyd ateb clir gan saith (mae'r llifsiart gysyniadol sy'n darlunio'r broses i'w gweld yn Ffigur 1). O ran yr ymatebion a oedd yn disgrifio'r broses ddiogelu, roedd modd eu grwpio'n gyffredinol i ddisgrifiadau o:

1. Gwaith atgyfeirio ( $n = 27$ , 93%)
2. Gwaith asesu risg a gwneud penderfyniadau ( $n = 18$ , 62%)
3. Prosesau ar gyfer gweithredu'n fwy dwys ac yn llai dwys ( $n = 18$ , 62%)

Ffigur 5. Llif y broses



Roedd yr atgyfeiriadau'n cynnwys rhai ysgrifenedig a llafar ac roeddent yn amrywio o geisiadau am wybodaeth a cheisiadau llys i atgyfeiriadau gan aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynglŷn â phryderon am ddiogelu plant ac oedolion. Gallant gyrraedd ar ffurf galwad ffôn, neges ebost, atgyfeiriad ar-lein, Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd neu Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth. Pan fydd atgyfeiriad wedi dod i law, caiff y wybodaeth ei chofnodi yn y system rheoli data (mae'r union system yn dibynnu ar bob gwasanaeth – mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn Thema 3). O'r 29 o ymatebwyr, roedd 11 yn gallu rhoi amcangyfrif o nifer yr atgyfeiriadau a geir drwy eu 'Drws Ffrynt' bob blwyddyn. Roedd y nifer yn amrywio o 520 i 16,800 o atgyfeiriadau bob blwyddyn, sef cyfartaledd o 6,617 o atgyfeiriadau fesul 'Drws Ffrynt' bob blwyddyn ar draws yr 11 o gyfranogwyr a roddodd amcangyfrif. Honnodd P1 fod pob atgyfeiriad yn cael adborth, ar wahân i atgyfeiriadau'r heddlu oherwydd y "nifer sylweddol" o'r mathau hynny o atgyfeiriadau sy'n dod i law.

Pwrpas adborth yw bod y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a/neu'r Un Pwynt Cyswllt yn ei gwneud yn bosibl i'r atgyfeiriad gael ei anfon i'r "gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ar sail dadansoddiad o risg" (P3). Roedd y gwasanaethau hynny'n cynnwys (i) help cynnar/gwasanaethau atal, (ii) cymorth gyda chaniatâd, neu (iii) yr angen am drefniadau diogelu (P14). Byddai hynny'n seiliedig ar y wybodaeth a ddaeth i law yn yr atgyfeiriad a'r wybodaeth a gafwyd o ymholiadau ochrol, naill ai gydag asiantaethau eraill neu gyda'r unigolyn/teulu os oedd hynny'n briodol:

*"os oes angen yr asesiadau hynny, bydd y gweithwyr cymdeithasol yn y ganolfan ddiogelu yn eu cynnal. Os penderfynir, ar ddiwedd yr asesiadau, bod angen i wasanaethau cymdeithasol statudol weithredu"* (P18).

O'r 29 o gyfranogwyr, nododd 20 (69%) yn benodol fod prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer 'gweithredu'n fwy dwys' a 'gweithredu'n llai dwys'. Mae hynny'n cynnwys "*rhyngwyneb wythnosol a thrafodaethau wythnosol am achosion*" (P1) ac asesiad ar y cyd gan yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol (P4). Disgrifiodd un cyfranogwr y dull 'Arwyddion Diogelwch' o weithredu er mwyn cefnogi'r asesiad dan sylw (P13): yn y dull hwnnw, ceisir datrys y sefyllfa ar y lefel isaf i ddechrau, a chaiff cymorth proffesiynol ychwanegol ei ddarparu lle bo angen. Mae 'gweithredu'n fwy dwys' yng nghyswllt achos yn golygu uwchgyfeirio'r atgyfeiriad er mwyn cael cymorth statudol a/neu broffesiynol ychwanegol (h.y. os oes pryderon ynghylch diogelu wedi'u nodi). Ar y llaw arall, byddai 'gweithredu'n llai dwys' yng nghyswllt achos yn golygu isgyfeirio'r atgyfeiriad at wasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar/Help Cynnar, cysylltwyr cymunedol neu gymorth gwirfoddol (h.y. tîm Cynorthwyo Newid Teuluol). Nodwyd bod Help Cynnar yn benodol ( $n = 8$ , 28%) yn hollbwysig i'r ddarpariaeth, o ran ei fod yn gallu ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn/teulu ddatblygu cydnerthedd ac iddynt gael eu cynorthwyo cyn gynted ag sy'n bosibl gyda'u sefyllfa, sydd yn ei dro'n atal problemau rhag dwysáu a throï'n broblemau y mae angen cymorth statudol arnynt:

*"Mae a wnelo â sicrhau bod y ddarpariaeth o ran help cynnar yn gywir"* (P13);

*"Mae yna ganolfan ymyrryd yn gynnar wedyn, sy'n dod â'r asiantaethau ynghyd i ystyried y ffordd orau o gefnogi a hybu ymyrraeth gynnar a chydnerthedd. Ac mae'n ymddangos bod hynny'n gweithio yn wirioneddol dda"* (P16);

*"Mae'r berthynas rhyngom ni a gwasanaethau atal yn hollbwysig"* (P18).

Un math penodol o sefyllfa a drafodwyd yn y sampl o ran 'gweithredu'n fwy dwys' yng nghyswllt atgyfeiriad oedd achosion o gam-drin domestig ( $n = 15$ , 52%). Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'r achos yn cael ei gyfeirio at y Cydlynnydd Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (sydd weithiau'n gweithio wrth y 'Drws Ffrynt' neu mewn trefniadau diogelu/Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth). Yn achos adroddiadau ynghylch cam-drin domestig na ddaethant drwy atgyfeiriad gan yr heddlu e.e. Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (h.y. achos y dangosodd asesiad bod risg is yn perthyn iddo), gallai'r achos gael ei gyfeirio at wasanaethau eraill ym maes cam-drin domestig (h.y. SafeLives). Buodd un o'r cyfranogwyr yn trafod prosiect peilot a elwir yn wasanaeth Cydlynu Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig, lle mae gweithiwr penodedig sy'n aelod o'r tîm 'Drws Ffrynt' yn gyfrifol am adolygu Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd sy'n ymwneud â cham-drin domestig:

*"...mae wedi lleihau'r nifer sy'n dod atom ni. Rydym yn gweld bod yna nifer sylweddol o achosion sy'n rhai risg isel ond y byddent yn dychwelyd ac yn troi'n broblem oherwydd nad oes neb yn gwneud dim amdanynt. Yn awr, felly, gallwn ddeall y llwybr hwnnw'n well ac, os ydynt yn gwaethygu, rydym yn deall sut y gwnaethant gyrraedd y sefyllfa honno. Gallai olygu bod yr achos wedi'i atgyfeirio dair gwaith a bod y sefyllfa wedi gwaethygu, neu gallai olygu bod yr achos wedi'i atgyfeirio chwe gwaith tua'r un pryd a bod profedigaeth neu rywbeth tebyg wedi digwydd"* (P17).

Nododd cyfranogwr arall fod Uned Cam-drin Domestig bwrpasol ar gael ynghyd â gwasanaeth Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig lle mae eiriolwr yn brif unigolyn cyswllt dioddefwr er mwyn trafod ystod o opsiynau addas, datblygu cynlluniau diogelwch a chyfeirio'r unigolyn at wasanaethau priodol:

*“Yr Uned Cam-drin Domestig sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu dioddefwyr trais domestig a'u teuluoedd ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Rydym yn cael cyfartaledd o 20-40 o adroddiadau am drais domestig bob 24 awr, yn ogystal ag atgyfeiriadau allanol gan asiantaethau eraill. Yr Uned Cam-drin Domestig sy'n rheoli ac yn cynnal yn barhaus unrhyw waith diogelu a gyflawnir ar draws y rhanbarth ym maes cam-drin domestig, sy'n golygu y gallent fod yn dal i gynnal a gweithredu mesurau diogelu am flynyddoedd lawer ar gyfer rhai dioddefwyr. Mae'r Uned Cam-drin Domestig yn asesu risg yng nghyswllt Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ac atgyfeiriadau allanol ac yn eu categorio dan y pennawd Uchel, Canolig neu Safonol. Yna, caiff y wybodaeth honno ei rhannu ag asiantaethau eraill a chaiff y mesurau diogelu sy'n briodol i'r lefel benodol honno o risg eu gweithredu” (P9).*

Cafodd achosion lle'r oedd systemau, timau neu brosesau yn rhai ar wahân i rai'r trefniant 'Drws Ffrynt' eu trafod gan 18 (62%) o gyfranogwyr. Trafododd 11 (38%) o gyfranogwyr drefn lle ceir tîm ar wahân i'r gwasanaethau 'Drws Ffrynt' ar gyfer cyfrifoldebau diogelu. Yn aml, roedd y timau diogelu'n ymwneud ag achosion risg uwch ac roeddent yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol:

*“Mae hwn yn dîm gwahanol [...] mae gennym weithiwr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn diogelu [...] Mae'n mynd allan yn fwy o lawer” (P24);*

*“Mae'n dîm arbenigol ar gyfer diogelu oedolion ac ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid” (P28).*

Roedd yn golygu'n aml nad oedd tîm/aelodau o staff diogelu wedi'u cydleoli yn y tîm 'Drws Ffrynt'. Fodd bynnag, nododd P17 yn graff nad oedd hynny'n “golygu nad oedd gwasanaethau plant ac oedolion yn gyfrifol am ddiogelu”. Mewn rhai achosion, byddai'r tîm diogelu hwnnw a oedd ar wahân yn ffurfio Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ( $n = 5, 17\%$ ), a chafodd ei ddisgrifio'n dîm y caiff galwadau sy'n esgor ar “bryderon ar unwaith am ddiogelwch” (P30) eu cyfeirio ato. I'r perwyl hwnnw, gellir ystyried bod y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn rhyw ffurf ar 'weithredu'n fwy dwys' yng nghyswllt atgyfeiriad. Roedd un agwedd arall yn ymwneud â'r broses o dreialu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (P5). At ei gilydd, bernid bod cael darpariaeth Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn beth cadarnhaol yn ôl y cyfranogwyr yr oedd darpariaeth o'r fath yn rhan o'u gwasanaethau ar hyn o bryd:

*“Mae'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn enghraifft wych o drefniadau gweithio amlasiantaeth er mwyn rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael â risg cyn gynted ag sy'n bosibl. Nid oes unrhyw rwystr i rannu gwybodaeth, ac mae cydberthnasau gweithio'n ffynnu yn ein hamgylchedd ni” (P9).*

Ond nodwyd nad oedd hynny'n gweithio yn dda bob amser a bod angen gweithio ar ddatblygu "trefniadau llywodraethu", "goruchwylio'r data", "sichrau tryloywder" a chreu "cydberthnasau" da (P30).

Roedd trafodaeth arall ynghylch systemau ar wahân yn ymwneud â gwahanu gwasanaethau 'Drws Ffrynt' ar gyfer oedolion a phlant. Nodwyd bod y gwahanu hwnnw'n ymwneud â'r canfyddiadau gwahanol o risg sy'n gysylltiedig â phlant o'u cymharu ag oedolion:

*"Rwy'n credu bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd o safbwynt cael pobl i ddeall bod gan waith amddiffyn oedolion yr un statws statudol â gwaith amddiffyn plant [...] Felly, pan oedd fy nhîm yn gofyn, er enghraifft, am i weithiwr cymdeithasol fynd i ymweld, roeddem mewn gwirionedd yn ei droi'n ddyletswydd statudol i ymholi. Roedd hynny'n dangos yn glir iawn dan ba ddyletswyddau yr oeddem yn gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol wneud hynny ac erbyn pa ddyddiad yr oeddem am gael y wybodaeth yn ôl. Ymateb cyntaf pob un ohonynt oedd 'Edrychwch, mae dyletswydd statudol arnom i ymholi', ac aethant allan. Fel arall, fydden nhw ond wedi meddwl 'le, iawn. Fe wna i daro draw i weld y ddynes yma pan fydd gen i funud i'w sbario' (P19).*

Yn benodol, mae diogelu oedolion yn aml yn dibynnu ar ddeall beth yw dymuniadau'r oedolyn a 'beth sy'n bwysig iddo neu iddi' (P31). Roedd rhai o'r farn bod y gwahanu hwn yn rhywbeth cadarnhaol oherwydd ei fod yn galluogi rhai ymarferwyr i fod yn arbenigwyr yn eu maes. Fodd bynnag, roedd rhai eraill o'r farn bod y gwahanu hwn yn cael effaith negyddol ar y gwasanaeth yr oedd modd iddynt ei ddarparu, a'i fod hefyd yn creu amgylchedd sy'n "lleihau sgiliau pobl" (P16):

*"Y rheswm pam y gwnaethom arbenigo yw hyn: pe baech yn edrych o ddifri' ar yr amrywiadau cynnil mewn gweithdrefnau amddiffyn plant neu weithdrefnau amddiffyn oedolion agored i niwed fel yr oeddent, ac ar y rheolau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a'r gyfraith reoleiddiol a rôl Swyddog Adolygu Annibynnol, all neb gyflawni pob un o'r tair rôl hynny i'r un safon" (P8);*

*"Byddwn i'n argymhell arbenigeddau. Mae cael tîm arbenigol yn gweithio'n well o lawer" (P28).*

Pwysleisiodd un cyfranogwr ei weledigaeth, sef "cydgysylltu'r elfen frysbenneu sy'n rhan o'r tîm asesu a chynorthwyo plant â'r tîm oedolion", ac er bod yna wahaniaethau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant "mae a wnelo â diogelu ... a rhaid i ni ystyried diogelu yng nghyswllt pawb" (P21).

Roedd pob un o'r ymatebwyr mewn swyddi arwain yn eu darpariaeth ddiogelu. Roedd y cyfrifoldebau arwain a drafodwyd yn ymwneud â goruchwylio'r wybodaeth a rennir, y penderfyniadau a wneir a'r ymatebion a grëir, gweithdrefnau sichrau ansawdd, a staff/timau:

*"...cydlynu'r ymatebion i gyd [...] darparu gwybodaeth a goruchwylio staff yn ffurfiol" (P1);*

*"...goruchwylio trefniadau diogelu ar draws y gwasanaeth" (P2).*

O safbwynt gweithgareddau sicrhau ansawdd yn benodol, nododd 17 (59%) fod hynny'n rhan bwysig o'r broses er mwyn asesu diogelwch ac effeithiolrwydd y trefniant 'Drws Ffrynt' (P19), nodi problemau'n ymwneud â llwyth gwaith (P21), "*gwella ymarfer, ond hefyd gwella ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cyrraedd*" (P12). Buodd un o'r cyfranogwyr (P13) yn trafod sut yr oedd ei sefydliad yn ceisio cynnal adolygiad o feddylfryd systemau yng nghyswllt ei holl drefniadau diogelu.

### Thema 3: Partneriaeth

Buodd y cyfranogwyr i gyd yn trafod trefniadaeth partneriaeth. Roedd trefniadaeth partneriaeth yn ymwneud â:

- (i) Strwythur timau
- (ii) Gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth
- (iii) Trefniadau cydleoli
- (iv) Rhannu gwybodaeth.

Roedd strwythurau'r timau yn amrywio o'r naill leoliad i'r llall. Nododd naw o ymatebwyr nifer yr aelodau a oedd mewn timau, a oedd yn amrywio o 5.5 aelod o staff i 27.5. Cyfartaledd nifer yr aelodau o staff ym mhob tîm ar draws y naw o ymatebwyr oedd 15. Roedd y timau'n cynnwys rheolwr/rheolwyr tîm, gweithwyr cymorth (h.y. swyddogion cyswllt, swyddog comisiynu) ac ymarferwyr (h.y. gweithwyr cymdeithasol cymwys, swyddogion diogelu, swyddogion, nyrsys ardal ac ati).

Nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr ( $n = 25$ , 86%) fod eu trefniadau'n golygu gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth. Mae dadansoddiad o'r asiantaethau craidd y nodwyd yn benodol eu bod yn rhan o'r bartneriaeth i'w weld yn Nhabl 4. Roedd asiantaethau eraill a oedd yn rhan o'r bartneriaeth yn cynnwys: ymyriadau yn y gymuned, h.y. cysylltwyr cymunedol ( $n = 7$ , 24%), gwasanaethau camddefnyddio sylweddau neu ganolfannau adsefydlu ( $n = 7$ , 24%), gwasanaethau iechyd meddwl (h.y. CAMHS:  $n = 5$ , 17%), gwasanaethau therapi galwedigaethol ( $n = 4$ , 14%), gwasanaethau cymorth i deuluoedd (h.y. Teuluoedd yn Gyntaf neu Dîm o Amgylch y Teulu:  $n = 3$ , 10%) a chymorth i ofalwyr ( $n = 2$ , 7%). Roedd asiantaethau eraill (y cyfeiriwyd atynt unwaith yn unig) yn cynnwys: gwasanaethau rheoli troseddwr rhyw, Cymorth i Fenywod, cymorth ym maes cam-drin domestig (h.y. Assia Suite), Barnardo's a'r NSPCC.

Tabl 6. Gwaith amlasiantaeth<sup>7</sup>

Asiantaeth	Nifer y trefniadau diogelu lle soniwyd bod yr asiantaeth yn rhan ohonynt
Iechyd	24 (83%)
Heddlu	28 (97%)
Addysg	18 (62%)
Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc	6 (21%)
Gwasanaeth Prawf	6 (21%)
Tai	5 (17%)

Gofynnwyd i bob un o'r cyfranogwyr am gydleoli yn eu trefniadau diogelu. O'r 28 a ymatebodd, nododd 25 fod o leiaf rhywfaint o gydleoli'n digwydd ar draws yr asiantaethau craidd perthnasol; dim ond dau a nododd yn bendant nad oedd unrhyw gydleoli'n digwydd (P3 a P10). Buodd cyfranogwr arall yn trafod cynlluniau i gydleoli, ond wrth wneud hynny roedd fel pe bai'n awgrymu nad oedd y cynlluniau hynny ar waith eto (P5). Roedd hyd a lled trefniadau cydleoli, a'u trefniadaeth, yn amrywio ar draws y sampl. Gwelwyd nifer eithaf tebyg o drefniadau cydleoli a oedd yn cynnwys timau 'Drws Ffrynt' lle'r oedd gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth/Pwynt Cyswllt Unigol wedi'u cydleoli yn yr un man â thimau diogelu a/neu dimau Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (n = 12) (cyn Covid-19), a threfniadau lle'r oedd gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth/Pwynt Cyswllt Unigol wedi'u lleoli mewn man gwahanol i'r tîm/timau diogelu neu lle'r oedd timau plant wedi'u lleoli mewn man gwahanol i'r timau oedolion (n = 14).

*"Roeddem yn arfer bod yn yr un ystafell â'r tîm oedolion. Ond yna, cawsom ein symud. Dwi ddim yn gwybod pam. Ac rwy'n credu i ni fod yn lwcus, oherwydd rydym yn adnabod y tîm oedolion yn wirioneddol dda oherwydd ein bod wedi cydweithio â'n gilydd am amser mor hir. Felly, os oes achos yn cyrraedd drwy'r 'drws' oedolion a bod y tîm yn gweld bod yna blentyn hefyd, mae aelodau'r tîm yn ein ffonio yn syth. Ac rydym ninnau'n gwneud yr un peth. (P12)*

Roedd y rhesymau dros beidio â chydleoli'n cynnwys y modd yr oedd swyddfeydd wedi'u cynllunio a'r graddau yr oedd swyddfeydd ar gael, a'r problemau cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â swyddfeydd agored mawr wrth ymdrin â materion diogelu:

*"...daeth cyfrinachedd yn broblem benodol, oherwydd roedd gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth chwech neu wyth o bobl, fwy na thebyg, yn yr ystafell ffrynt honno [...] Cyfrinachedd yn llythrennol oedd bod gweithiwr cymdeithasol yn datgan bod y person yn fam i rywun neu'i gilydd, ac nad oedd yn byw yn yr ardal" (P15).*

<sup>7</sup> Noder: ni ofynnwyd i'r cyfranogwyr ddarparu rhestr o asiantaethau, felly dim ond yr asiantaethau y soniwyd amdanynt sydd wedi'u cynnwys.

Trafododd un o'r cyfranogwyr fod cydleoli'n digwydd, ond bod gweithio o bell yn digwydd hefyd yn dibynnu ar leoliadau posibl cyfarfodydd:

*"Rydym yn ffodus iawn bod gennym ganolfan i weithio ynnddi lle mae gennym ddesgiau penodedig. Ond yr hyn rydym wedi'i sylweddoli, am wn i, yw ei bod weithiau'n gwneud mwy o synnwyr, pan fyddwch yn gweithio ar draws y sir gyfan fel ni, i weithio yn XX ar y diwrnod hwnnw os yno y mae eich cyfarfodydd yn cael eu cynnal [...] Pan fyddwch yn gallu rhannu desg am yn ail ag eraill, byddwch weithiau'n gweld eich bod yn eistedd wrth ymyl rhywun na fydddech fel arfer yn eistedd wrth ei ymyl, ac er syndod yn gallu siarad am yr un pethau [...] Rwy'n credu bod hynny'n ffordd wych o ledaenu gwybodaeth, gwybodaeth wirioneddol gadarnhaol, ac o roi wyneb i enw hefyd" (P31).*

Câi timau eu cydleoli mewn gorsafoedd heddlu neu adeiladau awdurdodau lleol. Roedd rhai'n teimlo bod cael eu cydleoli mewn gorsafoedd heddlu yn problemus:

*"Mae'n anffodus ein bod mewn gorsaf heddlu [...] byddai mor braf pe na baem wedi ein cydleoli mewn gorsaf heddlu. Rwy'n credu bod hynny'n annymunol i bobl, a dweud y gwir. Ac nid yw'r orsaf wedi'i chynllunio mewn modd sy'n galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i'r swyddfeydd. Dyw'r adeilad ddim yn groesawgar. Bydd pobl yn dod i mewn ac yn eistedd yn y cyntedd ac yn gweld pob math o bobl eraill yn mynd a dod. Maen nhw'n gorfod cael eu hebrwng i fyny'r grisiau cefn sy'n ofnadwy. Dyw'r adeilad ddim yn groesawgar o gwbl" (P11).*

Roedd aelodau timau a oedd wedi'u cydleoli yn tueddu i fod mewn un ystafell agored, a nodwyd mai diben hynny oedd galluogi 'cyfathrebu llafar' ar draws asiantaethau (P1) a hwyluso cydweithio:

*"Mae'r ffaith ei fod wedi'i gydleoli â gwasanaethau oedolion yn galluogi'r Pwynt Cyswllt Unigol i gysylltu'n haws â gwasanaethau oedolion. Felly, gall anghenion y rhieni, h.y. iechyd meddwl y rhieni, anabledd (anabledd corfforol ac anabledd dysgu) ac ati, gael eu hasesu ar yr un pryd, sy'n galluogi'r gweithiwr cymdeithasol i ganolbwyntio ar anghenion y plentyn" (P2);*

*"Mae'r ffaith ein bod wedi ein cydleoli yn golygu bod modd cael trafodaethau wyneb yn wyneb a chael gwybodaeth arall gan grŵp ehangach o bobl, ac nad yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol yn unig sy'n penderfynu beth fydd yn digwydd. Byddwch yn cael mewnbwn gan wasanaethau iechyd, addysg a help cynnar, felly mae'n drefniant sydd o gymorth mawr i wneud penderfyniadau" (P13);*

*"Rydym yn ffodus iawn yn y Ganolfan Ddinesig ein bod i gyd, i bob pwrpas, wedi ein lleoli bron mewn cylch, bron gyda'n gilydd. Yn un o'r ystafelloedd, felly, sydd â mynedfa i'r tîm amddiffyn plant, y timau plant sy'n derbyn gofal ac ati. Mae gennych y swyddog heddlu. Mae gennych y gweithwyr cymdeithasol. Mae gennych y sawl sy'n prosesu atgyfeiriadau. Ac mae gennych ymchwilydd heddlu hefyd. At hynny, mae gennym rywun yn awr sy'n gweithio tridiau'r wythnos ac sy'n adolygu'r holl Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd, yn rhan o'r gwasanaeth atal ac ymyrryd yn gynnar. Ond mae'r cyfan yn gweithio mewn un ystafell, ac mae'r gweithwyr atal ac ymyrryd yn gynnar a'r tîm atal yn dod i fyny oherwydd bod yna system rhannu desg am yn ail. Maent yn dod i fyny ac yn treulio amser yno. Mae gweithiwr Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gwent a gweithiwr ymgysylltu yr ochr arall i'r drws. Ond maint yr ystafell sydd i gyfrif am hynny, oherwydd mae'r Ganolfan Ddiogelu wedi tyfu'n gyson yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Felly, o safbwynt cael gafael ar ein gilydd, mae pawb yn gallu gwneud hynny'n hwylus" (P18).*

Nodwyd bod rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau'n rhan annatod o waith diogelu er mwyn:

*“...darparu amgylchedd diogel a chyfrinachol i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth a bod mewn sefyllfa well i adnabod atgyfeiriadau risg isel sy'n codi dro ar ôl tro, nad ydynt ar eu pen eu hunain yn peri pryder ond sydd gyda'i gilydd yn awgrymu bod yr unigolyn yn wynebu risg uwch” (P5).*

Roedd y ffaith bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol yn helpu i dynnu sylw at bryderon ynghylch diogelu ac i ysgogi atgyfeiriadau a/neu symud ymatebion yn eu blaen (P1). Os oedd timau wedi'u cydleoli, roedd cyfathrebu llafar yn ddull allweddol o rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill. Roedd dulliau eraill yn cynnwys defnyddio ebost, ffôn neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb/rhithwir yn ogystal â'r systemau penodol a oedd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. O safbwynt systemau rhannu gwybodaeth, roedd 20 (69%) ar hyn o bryd yn defnyddio system bwrpasol ar gyfer casglu a/neu rannu gwybodaeth. Y system fwyaf poblogaidd oedd WCCIS (n = 9), yna MHUB (n = 4), PARIS (n = 4), CareFirst (n = 4), EGRESS (n = 2) a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) (n = 1). Roedd rhai trefniadau'n defnyddio mwy nag un system, a thrafododd un cyfranogwr y posibilrwydd o symud o PARIS i WCCIS. Câi'r systemau hyn eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill, rhannu manylion a hysbysu partneriaid perthnasol wrth asesu achos. Er enghraifft, câi system MHUB ei defnyddio fel a ganlyn:

- Uwch-ymarferydd yn defnyddio MHUB i gofnodi'r rheswm dros atgyfeirio a'r hanes o ran gwasanaeth
- MHUB yn hysbysu asiantaethau partner
- Asiantaethau partner yn ymchwilio i'w gwybodaeth nhw ac yn cofnodi'r wybodaeth berthnasol ar MHUB.

Er bod cael mynediad i system rhannu gwybodaeth fel hon yn rhywbeth cadarnhaol o ran bod hynny'n galluogi ymarferwyr i gael mynediad i wybodaeth angenrheidiol er mwyn seilio penderfyniad gwybodus arni, mewn modd sy'n fwy hwylus na cheisiadau drwy ebost, galwadau ffôn neu sgysiau a geir mewn cyfarfodydd yn unig, nodwyd bod defnyddio systemau rhannu gwybodaeth yn gallu esgor ar broblemau. Er enghraifft, nodwyd bod system MHUB yn “lletchwith” i'w defnyddio, “nid yw'n rhoi i chi'r data y mae arnoch ei angen” (P30) ac nid yw'n cael ei lletya ar y rhyngwyd, felly roedd yn rhaid i bob aelod o staff gael cyfrifon heddlu i gael mynediad i'r rhwydwaith ar gyfer y system (P11). Nodwyd bod PARIS yn system lle mae'n rhaid “gwneud i'ch sgwrs ffitio'r hyn sy'n bodoli'n barod”, tra oedd WCCIS yn galluogi'r “system i ffitio'r sgwrs” (P13). Er hynny, nodwyd bod y system honno hefyd yn “lletchwith” (P17). Nododd dau o'r ymatebwyr y byddent yn symud i Microsoft Teams yn y

dyfodol o ganlyniad i'r angen i ddefnyddio'r system yn ystod y cyfnod clo. Awgrymodd P2 fod problemau a oedd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag ymarferwyr unigol, yn hytrach na'u bod yn broblemau a oedd yn berthnasol i asiantaeth gyfan.

#### Thema 4: Myfyrio

Yn olaf, gofynnwyd i bob un o'r cyfranogwyr fyfyrion ynghylch sut y mae eu trefniadau diogelu'n gweithredu. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu pedwar maes:

- (i) Defnyddioldeb y model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth
- (ii) Effaith COVID-19 ar ymarfer gweithredol
- (iii) Beth sy'n gweithio yn dda?
- (iv) Pa welliannau y mae angen eu gwneud?

Gallai'r elfennau hyn lywio'r gwaith o rannu arfer gorau a llunio argymhellion ar gyfer newid, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Buodd saith (24%) o'r cyfranogwyr yn myfyrio ynghylch defnyddioldeb y model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth. Yn y myfyrdodau hynny, roedd gan y mwyafrif (n = 5) farn negyddol ynghylch mabwysiadu model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth nodweddiadol yn eu rhanbarth nhw. Buodd rhai ohonynt yn trafod y pwysau yr oeddent yn ei deimlo i ddatblygu a defnyddio model o'r fath yn eu rhanbarth, ond ni allent "weld beth oedd canlyniadau cadarnhaol" gwneud hynny (P13). Yn yr un modd, disgrifiodd P16 ganlyniadau adolygiad o achos busnes a fu'n archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth ac a nododd "nad oedd yn fforddiadwy". Buodd eraill yn trafod yr awydd i weithredu model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth diwygiedig sy'n cyd-fynd â'u hanghenion rhanbarthol nhw (P12). I'r perwyl hwnnw, câi'r model ei ystyried yn fodel a oedd yn berthnasol i "ganol dinasoedd", na fyddai'n gweithio fel rheol mewn ardal fwy gwledig a gwasgaredig. Felly, awgrymwyd y gellid mabwysiadu'r athroniaeth o gyflawni gwaith amlasiantaeth mewn "model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth rhithwir" (P12). Nododd un o'r cyfranogwyr yr angen i ddeall y dystiolaeth ymchwil a oedd yn sail i'r model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, cyn mabwysiadu'r model (P29).

Yng ngoleuni COVID-19, buodd 15 (52%) o'r cyfranogwyr yn myfyrio ynghylch yr effaith yr oedd y feirws a'r cyfnod clo wedi'i chael ar eu hymarfer. Mewn rhai achosion, roedd wedi esgor ar botensial i gyflwyno dulliau ymarfer cadarnhaol a/neu fwy effeithlon, e.e. defnyddio trefniadau Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth rhithwir (P12). Nodwyd bod newid o'r fath (h.y.

gweithio o bell a chynnal cyfarfodydd rhithwir) nid yn unig yn ddefnyddiol yn ystod y cyfnod clo ond hefyd yn newid cadarnhaol a oedd wedi parhau ar ôl y cyfnod clo, oherwydd maint ardaloedd rhai awdurdodau:

*“Gallwch weld ei fod yn gyfle i roi stop ar y diwydiant cyfarfodydd a newid agweddau pobl a oedd yn meddwl bod hynny'n ddigon i reoli risg. A rhoi stop ar gael cyfarfodydd tair awr nad oeddent yn trafod materion penodol. Mae'n gyfle perffaith i geisio mynd i'r afael â rhai o'r pethau hynny. A gallem wneud hynny pe bai modd i ni gael rhai o'r bobl i ddefnyddio'r dechnoleg” (P17);*

*“Mae wedi ein gorfodi i wneud rhai o'r pethau yr ydym wedi bod yn eu gwrthsefyll ers amser. Mae'r dechnoleg ar gael ac mae'r dulliau o'i defnyddio ar gael, ond rydym wedi parhau i weithio mewn ffordd hen ffasïwn iawn am lawer o resymau y mae rhai ohonynt yn amlwg. Ond, a dweud y gwir, yr hyn rydyn ni'n ei weld ac y byddwch chi'n ei weld hefyd efallai yw bod y cyfarfodydd hyn ar Skype, Teams a'r holl lwyfannau eraill sydd ar gael yn gyfarfodydd mwy cynhyrchiol o lawer, er ein bod yn gwasgu cymaint ohonynt i mewn. Ac mae presenoldeb, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd am strategaethau diogelu, wedi gwella'n aruthrol oherwydd bod pobl ar gael. Nid oes rheswm iddyn nhw beidio â bod ar gael erbyn hyn, oes yna? O, rwy'n teithio neu rwy'n sownd mewn traffig neu beth bynnag arall. Mae'r cyfan ar blât. Rwy'n credu bod unrhyw rwystrau i rannu gwybodaeth wedi diflannu erbyn hyn” (P19).*

Ar y llaw arall, buodd un o'r cyfranogwyr yn trafod “amharodrwydd” yr heddlu i ymwneud â llwyfannau rhithwir (h.y. Zoom) er mwyn hwyluso cyfarfodydd o bell (P17). Roedd gan yr heddlu dan sylw bolisi o beidio â defnyddio Zoom, oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd a phreifatrwydd efallai.

Er hynny, nodwyd hefyd bod COVID-19 wedi “atal” y gwaith o ddatblygu Canolfannau Help Cynnar mewn rhai ardaloedd (P13), wedi atal hyfforddiant a oedd wedi'i gynllunio (P15) ac wedi cynyddu'r risg i weithwyr cymdeithasol wrth iddynt ymweld ag oedolion, plant a/neu deuluoedd yn y cartref neu'r gymuned (P14). Soniodd rhai fod hyd yn oed gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a oedd wedi ennill eu plwyf wedi dod i stop ers Covid-19, a soniodd rhai arweinwyr diogelu plant am bryderon ynghylch plant sy'n wynebu risg is o fod yn agored i niwed:

*“Rwy'n poeni yn wirioneddol am y plant hynny a oedd efallai'n cael cymorth lefel is ac nad ydynt mor amlwg – yr holl blant sy'n ymdopi â sefyllfaoedd o'r fath. Rydym yn llwyddo i weithio gyda'r plant sydd â golau coch wrth eu hymyl, sy'n iawn, ond rwy'n poeni mwy am y rhai nad ydym yn eu gweld [...] rydw i wedi bod yn tynnu sylw at hynny oherwydd mae gennym glybiau sydd ar agor. Ond maent ar agor i'n plant agored i niwed neu i blant gweithwyr allweddol er mwyn eu galluogi i weithio. Mae hynny'n grêt. Ond beth am y plant y mae angen iddynt fynd i'r ysgol, pe na bai ond er mwyn iddynt ddianc o'r amgylchedd llawn straen sydd yn eu cartref? Efallai nad oes golau coch wrth eu hymyl, ond maent yn blant o gartrefi lle mae problemau iechyd meddwl, er enghraifft, a lle mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Nid yw anghenion y plant hyn yn mynd i ddiflannu. A gallent fod yn gwaethygu, yn fy marn i.” (P14)*

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn gweithio'n dda yn y trefniadau diogelu amlasiantaeth, nododd naw (31%) o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod eu trefniadau a'u prosesau presennol yn gweithio'n dda ar y cyfan. Yn benodol, roedd yr elfennau y bernid eu bod yn gweithio'n dda yn ymwneud â'r canlynol: (i) y cydberthnasau rhwng aelodau'r tîm ac asiantaethau (n = 19, 66%), (ii) sefydlogrwydd ac arbenigedd y tîm (n = 9, 31%) a (iii) trefniadau rhannu gwybodaeth (n = 9, 31%). Roedd yr elfennau eraill y nodwyd eu bod yn gweithio'n dda yn cynnwys gwneud penderfyniadau a lleihau risg (n = 4, 14%), cydleoli (n = 3, 10%), arweinyddiaeth (n = 3, 10%), dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (n = 3, 10%), prosesau a llwybrau atgyfeirio (n = 3, 10%), a dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau (n = 2, 7%).

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn y sampl hon (n = 19, 66%) o'r farn bod y cydberthnasau rhwng aelodau'r tîm ac asiantaethau'r bartneriaeth yn gryfder. Wrth drafod y cryfder hwnnw, nododd y cyfranogwyr fod yna "ymddiriedaeth" rhwng yr asiantaethau ac aelodau'r tîm (P11, P12, P17, P29). Nododd y cyfranogwyr nad oedd y berthynas gref honno'n rhywbeth a oedd wedi bodoli erioed, ond ei bod yn hytrach yn rhywbeth a oedd wedi'i meithrin dros gyfnod o amser:

*"Yn y gorffennol, mae'r berthynas rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill wedi bod yn eithaf gwael. Pan ddechreuais i gyntaf [...] roedd yna ddiwylliant o fwrw bai ar eraill; dylech chi fod yn gwneud hynny, eich gwaith chi yw hynny. Y math yna o beth. Rydym wedi gweithio'n galed i newid hynny" (P12);*

*"Rwyf wedi datblygu perthynas eithaf da â'r heddlu. Mae'n berthynas dda, yn fy marn i. Mae gennym berthynas agored, dryloyw. Os oes ganddyn nhw bryderon, maen nhw'n eu mynegi. Os oes gennym ni bryderon, rydym ni'n eu mynegi [...] Mae'n well gen i berthynas felly na gorfod uwchgyfeirio materion at y cyfarwyddwr, a bod materion yn cael eu cyfeirio'n ôl ataf i pan nad oeddwn hyd yn oed yn ymwybodol eu bod yn bryderon. Roedd hynny'n digwydd yn eithaf aml pan ddechreuais i gyntaf. Ond nid yw'n digwydd mwyach ... rydym yn mynd at ein gilydd, sy'n beth da" (P30).*

Priodolodd rhai o'r cyfranogwyr y cydberthnasau cryf a'r lefelau uchel o ymddiriedaeth i sefydlogrwydd timau. I'r perwyl hwnnw, nododd naw (31%) o'r cyfranogwyr sut yr oedd cael aelodau parhaol o staff yn y tîm ac mewn asiantaethau partner wedi meithrin ymddiriedaeth ymhlith pawb at ei gilydd ac wedi bod yn fodd i ddatblygu arbenigedd, a chyfeiriodd cyfranogwyr eraill at eu "gweithlu sefydlog" (P21):

*"Oherwydd mae fy nhîm yn wirioneddol sefydlog. Felly, mae pawb wedi dod i wybod pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio. Mae hynny wedi bod o help mawr" (P12).*

At hynny, nododd naw (31%) o gyfranogwyr fod arferion cadarn o safbwynt rhannu gwybodaeth yn rhywbeth a oedd yn gweithio'n dda – câi hynny ei ystyried yn rhywbeth a oedd yn arbennig o bwysig oherwydd ei fod yn galluogi penderfyniadau ac ymatebion amserol ac effeithiol (P11).

Pan ofynnwyd iddynt beth nad oedd yn gweithio gystal neu beth yr oedd angen ei wella, roedd yr ymatebion a gafwyd ar draws y sampl yn amrywiol. Yn anad dim, buodd mwyafrif y cyfranogwyr yn trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithio ar y cyd (n = 16, 55%), systemau, h.y. llwyfannau rhannu gwybodaeth (n = 10, 34%), ansawdd atgyfeiriadau a'u nifer (n = 8, 28%) ac adnoddau (n = 9, 31%). Roedd yr heriau eraill neu'r gwelliannau eraill yr oedd angen eu gwneud yn ymwneud â'r canlynol: (i) agweddau ymarferol, h.y. gorfod gweithio mewn gorsaf heddlu, y pellter rhwng cyfarfodydd mewn ardaloedd gwledig, ac ati (n = 7), (ii) datblygu darpariaethau cryfach ar gyfer oedolion (n = 5), (iii) amseru'r gwaith o symud achosion yn eu blaen (n = 4), (iv) hyfforddiant, h.y. hyfforddiant amlasiantaeth yn benodol (n = 4), (v) blaenoriaethu'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (n = 3) a diffinio a deall beth y mae 'diogelu' yn ei olygu mewn gwirionedd (n = 3).

O safbwynt yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithio ar y cyd, roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn ymwneud â disgwyliadau croes i'w gilydd ynghylch arferion gweithio a rolau asiantaethau:

*"Deall rolau pob asiantaeth, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt, a rheoli'r galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd yn sgil hynny" (P1);*

*"Rydym yn dadlau o bryd i'w gilydd ynglŷn â phwy ddylai fod yn delio â hynny. Ai ni ddylai fod yn delio ag ef? Pam rydych yn ein poeni o hyd ac o hyd am y pethau hyn?" (P11);*

*"Nid yw pawb yn deall o hyd beth rydym yn ei wneud fel gwasanaethau plant. Mae pobl fel pe baent yn disgwyl i ni wneud llawer mwy nag y gallwn ei wneud" (P12);*

*"Mae deall pwy ddylai berchenogi risg a rheoli risg, a deall rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol a'r pwerau sydd gennym mewn gwirionedd i ymyrryd... mae hynny'n gallu bod yn her. Rwy'n credu bod rhai asiantaethau'n credu eu bod yn gallu ymyrryd ym mywydau teuluoedd heb reswm o bwys, sy'n her" (P18).*

O safbwynt problemau rhyngasiantaethol, roedd mynediad i'r sector iechyd ac ymgysylltu â'r sector hwnnw fel pe bai'n her benodol i bedwar o'r cyfranogwyr, ac i raddau llai mynediad i CAMHS a'r heddlu ac ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny (P32 yng nghyswllt CAMHS a P33 yng nghyswllt yr heddlu):

*"Nid ydym wedi llwyddo o hyd i gael cyswllt wyneb yn wyneb â'r sector iechyd [...] mae problemau gyda'r sector iechyd yn parhau'n her" (P18).*

At hynny, roedd heriau o safbwynt gweithio ar y cyd nid yn unig yn ymwneud â gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill ond hefyd yn ymwneud â gwahanu timau plant a thimau oedolion (n = 2):

*"Rwy'n credu y gellid gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio â gwasanaethau plant. Rwyf am ymdrechu i wneud hynny, oherwydd mae llawer o'r problemau yn ymwneud â theuluoedd, ac mae teuluoedd yn cynnwys oedolion a phlant. Mae gormod o fwch rhwng y gwasanaethau yn fy marn i " (P7).*

O safbwynt systemau, buodd 10 o'r cyfranogwyr yn trafod y problemau a gafwyd neu'r gwelliannau yr oedd angen eu gwneud. Roedd y rheini'n ymwneud fel rheol â systemau, prosesau a/neu lwyfannau rhannu gwybodaeth. Unwaith eto, nodwyd bod systemau megis MHUB ac WCCIS yn "lletchwith" (P11) ac yn "achosi rhwystredigaeth" (P17). Nododd un o'r cyfranogwyr fod angen, yn hytrach, un system TGCh/rhannu gwybodaeth ar draws pob asiantaeth a phob darpariaeth o ran cymorth:

*"Atebion o ran TGCh. Dyna'r brif flaenoriaeth. Mae angen un system i bawb a phob un, o wasanaethau help cynnar i'r pegwn arall. System y gall pobl gyfrannu iddi...drwy gyfrannu i gronolegau, arsylwadau neu beth bynnag arall [...] Heb system TG dda ar gyfer rhannu gwybodaeth, y cyfan rydym yn ei wneud yw ychwanegu rhagor o broblemau at ymarfer gwaith cymdeithasol, at rwyddineb gwaith. Mae angen hwyluso'r modd y gall pobl adolygu a gweld gwybodaeth o'r naill ben i'r llall mewn gwasanaeth, a chael rhywbeth sy'n gweithio i bawb yn ddiethriad. Fel arall, byddwn yn parhau i fynd rownd a rownd yn y cylch yr ydym ynddo"* (P30).

Roedd y prosesau a'r systemau sydd ar waith ar gyfer gwybodaeth yn esgor ar broblemau mwy cyffredinol hefyd, a oedd yn ymwneud ag arferion gwael neu bryderon ynghylch y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data:

*"Rwy'n credu bod llawer o asiantaethau'n poeni weithiau am ddiogelu data, ac ati. Mae llawer yn dweud: 'Alla i ddim rhannu hynny â chi neu byddaf yn gweithredu'n groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data', ac ati. Mae hynny'n broblem barhaus i ni, yn fy marn i"* (P15);

*"Yn ddiweddar, rydym wedi ymgymryd â darn o waith ymchwil gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau er mwyn archwilio achosion o wahardd plant ac achosion o gamfanteisio troseddol. Roedd yn amlwg iawn bod llawer o asiantaethau'n ymwneud â'r materion hyn ond bod y camau gweithredu a gâi eu cymryd gan un asiantaeth yn cael effaith sylweddol ar asiantaethau eraill. Pe bai pob un ohonom wedi siarad â'n gilydd, byddai'r canlyniadau i lesiant y plant wedi bod yn well o lawer"* (P18);

*"Roedd gwybodaeth yn cael ei gor-rannu o safbwynt oedolion"* (P19).

Nododd wyth o'r cyfranogwyr fod y galw yr oedd atgyfeiriadau'n ei greu, yn ogystal ag ansawdd gwael yr atgyfeiriadau hynny'n gyffredinol, yn her yr oedd angen mynd i'r afael â hi, ynghyd â'r diffyg staff ac adnoddau digonol i ateb y galw hwnnw (n = 9):

*"Mae'r holl Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a geir gan yr heddlu yn y bôn yn gwneud y das wair yn fwy, sy'n ei gwneud yn anos dod o hyd i'r nodwydd. Bernir nad oes angen gweithredu ymhellach yng nghyswllt canran uchel (dros 80%) o'r Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a geir"* (P2).



## Canlyniadau: Trefniadau lefel uchel Cymru ar gyfer trefniadau diogelu amlasiantaeth

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r wybodaeth allweddol am y trefniadau diogelu amlasiantaeth sydd ar waith ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Tabl 7. Trosolwg lefel uchel o drefniadau diogelu amlasiantaeth ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru

Ardal awdurdod lleol	Cyfrifoldeb	Gwasanaeth 'Drws Ffrynt'	Wedi'i gyfleoli fel un asiantaeth	Gwasanaeth diogelu	Wedi'i gyfleoli fel un asiantaeth	Ymyrryd yn gynnar	Rhannu gwybodaeth
Blaenau Gwent	Plant	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth 'Drws Ffrynt' ar gyfer plant	✘	Tîm ar Ddyletswydd ar gyfer Plant	✘	Cyswllt â'r Tîm Gweithredu'n Gynnar gyda'n Gilydd (ym maes plismona)	Egress
Blaenau Gwent	Oedolion	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth 'Drws Ffrynt' ar gyfer oedolion	✘	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion	✘	Cysylltwyr cymunedol ynghyd â gwasanaethau eraill	WCCIS
Casnewydd	Plant	Canolfan gyswllt	✓	Canolfan Ddiogelu ar gyfer Plant	✘	Prosiect Ymyrryd yn Gynnar. Panel Teuluoedd yn Gyntaf (y tîm atal)	WCCIS a WASPI
Casnewydd	Oedolion	Tîm Cyswllt Cyntaf ar gyfer oedolion (tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth)	✘	Canolfan Ddiogelu ar gyfer Oedolion (tîm diogelu ar wahân ar gael hefyd yn yr ysbyty)	✘	Cysylltwyr cymunedol	WCCIS a WASPI
Caerffili	Ardal gyfan	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth (Pwynt Mynediad Unigol)	✓	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion. Tîm Diogelu ar gyfer Plant	✘	Cynorthwyo newid teuluol (ar gyfer plant) a chysylltwyr cymunedol (ar gyfer oedolion)	I'w gadarnhau

Torfaen	Ardal gyfan	Galw Torfaen (ar gyfer oedolion) a Chanolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ar gyfer plant	✓ - Galw Torfaen, ✗ - Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant. Uned Ddiogelu ar gyfer Oedolion	✗ - Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth ✓ - Ar gyfer oedolion	Darpariaeth o ran Help Cynnar yn y tîm Teuluoedd yn Gyntaf	WCCIS
Sir Fynwy	Plant	Canolfan Asesu a Help Cynnar (ar gyfer plant)	✓	Tîm ar Ddyletswydd ar gyfer Plant / Tîm ar Ddyletswydd ar gyfer Diogelu Oedolion	✗	Gwaith atal o ran help cynnar a phanelau help cynnar	WCCIS
Merthyr Tudful	Ardal gyfan	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth	✗	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	✓	Canolfan Help Cynnar	MHUB
Pen-y-bont ar Ogwr	Ardal gyfan	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth	✗	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth a Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion	✗	Swyddogion Ymyrryd yn Gynnar	Dim un eto
Caerdydd	Ardal gyfan	Y Porth	✗	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	✗	Darpariaeth o ran Help Cynnar	MHUB a CareFirst
Bro Morgannwg	Ardal gyfan	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth	✗	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion. Tîm Diogelu ar gyfer Plant	✓	Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf	WCCIS
Rhondda Cynon Taf	Oedolion	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer oedolion – Pwynt Mynediad Unigol	✓	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	✗	Cyswllt â llawer o wasanaethau atal yn y gymuned drwy'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	MHUB
Rhondda Cynon Taf	Plant	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth Gwasanaethau Plant	✓	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	✗	Darpariaeth o ran Help Cynnar	MHUB
Abertawe	Plant a theuluoedd	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth – Pwynt Mynediad Unigol	✓	Canolfan Ddiogelu Integredig	✗	Canolfannau Help Cynnar x 5 (yn y gymuned y maent yn ei gwasanaethu)	WCCIS – yn symud i PARIS
Castell-nedd Port Talbot	Plant ac oedolion	Pwynt Cyswllt Unigol (ar gyfer plant ac oedolion)	✗	Tîm Diogelu Oedolion yn y Pwynt Cyswllt Unigol	✗	Gwasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	WCCIS

Sir Gaerfyrddin	Oedolion	Llesiant Delta (tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth)	✘	Tîm Diogelu	✓	Cyswllt rhwng Delta a llawer o wasanaethau atal yn y gymuned	CareFirst
Sir Gaerfyrddin	Plant	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth	✘	Tîm Atgyfeirio Gwasanaethau Plant		Tîm o Amgylch y Teulu	CareFirst
Ceredigion	Plant ac oedolion	PORTH Gofal / Pwynt Mynediad Unigol	✓	Tîm ar Ddyletswydd ar gyfer Oedolion a Phlant	✓	Cysylltwyr cymunedol	WCCIS
Sir Benfro	Oedolion	Tîm Cyswllt Cyntaf	✓	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion	✓	Cysylltwyr cymunedol	CareFirst
Sir Benfro	Plant	Tîm Asesu Gofal Plant	✓	Canolfan ar Ddyletswydd (gyda'r tîm Plant mewn Angen)	✓	Tîm o Amgylch y Teulu	CareFirst
Powys	Oedolion	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth	✓	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion	✓	Cysylltwyr cymunedol	WCCIS
Powys	Plant	'Drws Ffrynt' Powys	✓	Tîm Asesu – Gofal a Chymorth	✓	Tîm Cymorth i Deuluoedd (Help Cynnar)	WCCIS
Conwy	Ardal gyfan	Tîm Asesu 'Drws Ffrynt' (yn y Gwasanaeth Ymyriadau a Chymorth i Deuluoedd)	✓	Gwasanaeth i Blant a Theuluoedd a Gwasanaeth Diogelu (byddant yn symud i fodel Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth newydd)	✘	Canolfannau i Deuluoedd Conwy ar gyfer Ymyrryd yn Gynnar	WCCIS
Sir y Fflint	Plant	Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer oedolion. Y Tîm Cyswllt Cyntaf Plant	✘ - Oedolion ✓ - Plant	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion. Tîm ar Ddyletswydd ac Asesu ar gyfer Plant		Canolfan Help Cynnar	PARIS
Ynys Môn	Ardal gyfan	Pwynt Mynediad Unigol Ynys Môn ar gyfer teuluoedd	✓	Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth	✘	Teulu Môn/ Tîm o Amgylch y Teulu	WCCIS
Wrecsam	Oedolion	Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer plant a Phwynt Mynediad	✓	Tîm Diogelu ar gyfer Plant (Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth gynt)	✓ - Ar gyfer oedolion. Yn aneglur ar gyfer plant	Gwaith ymgysylltu cymunedol	WCCIS

		Unigol ar gyfer oedolion		a Thîm Diogelu ar gyfer Oedolion			
Gwynedd	Plant	Tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer plant (Pwynt Mynediad Unigol)	✓	Tîm Derbyn	✓	Tîm o Amgylch y Teulu (llwybr help cynnar yn yr heddlu)	WCCIS
Gwynedd	Oedolion	5 'Drws Ffrynt' (ar gyfer 5 maes) yn dechnegol	✓	Canolfan Ddiogelu ar gyfer Oedolion	✓	Darperir yn lleol mewn 5 ardal gan Dimau Adnoddau Cymunedol Oedolion	WCCIS
Sir Ddinbych	Oedolion	Pwynt Mynediad Unigol	✓	Tîm Diogelu ar gyfer Oedolion	✓	Timau Adnoddau Cymunedol	PARIS
Sir Ddinbych	Plant	Y Porth Plant (tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth)	✓	Tîm Derbyn ac Ymyrryd	✓	Mae gan Help Cynnar 2 ddarpariaeth o ran gwasanaethau: gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg	PARIS

## Trafodaeth

### Canfyddiadau allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i Gam 1 cyfres o ddarnau o waith arfaethedig er mwyn archwilio, deall a gwella trefniadau diogelu amlasiantaeth yng Nghymru. Yn rhan o'r cam cyntaf hwn, ymgysylltodd yr astudiaeth ag o leiaf un arweinydd diogelu enwebedig o bob awdurdod lleol ledled Cymru. Bu'r gwaith casglu data yn canolbwyntio ar gael disgrifiad o'u trefniadau diogelu, gan roi pwys penodol ar drefniadau 'Drws Ffrynt', o gofio'r amodau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) ynghylch y gofyniad i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth (rhan 2 y Ddeddf). Cafodd data o gyfweiliadau<sup>8</sup> (n = 22) ac arolygon (n = 6) ei gasglu ar draws pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gan gynnwys 36 o arweinwyr diogelu enwebedig<sup>9</sup>. Caiff canfyddiadau allweddol yr astudiaeth eu hamlinellu'n gryno isod.

Yn gyntaf, er na welwyd hynny yn y dadansoddiad o ddata, roedd yn amlwg bod ffiniau clir rhwng gwasanaethau, hyd yn oed o fewn awdurdodau lleol, ac felly hefyd o ran deall sut y mae unigolion ac a yw unigolion sy'n ymdrin ag adroddiadau diogelu'n gallu gweld achosion ar hyd eu llwybr llawn. Fel y cadarnhawyd yn gynnar yn ystod y cam casglu data, y bwriad yn wreiddiol oedd cyfweld un arweinydd diogelu enwebedig o bob awdurdod lleol, ond daeth yn amlwg yn fuan bod arweinwyr enwebedig yna'n argymhell arweinydd arall o ran arall o'r gwasanaethau diogelu, e.e. eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwasanaethau plant, gwasanaethau oedolion ac ati, gan nad oeddent yn teimlo'n ddigon cysurus neu'n ddigon gwybodus i ateb y cwestiynau a gâi eu gofyn. Mae angen ymchwilio ymhellach i hynny yn ystod cam nesaf yr astudiaeth, er mwyn archwilio'n fanylach beth yw'r effaith ar rai o'r gwasanaethau sydd ar wahân i'w gilydd a pha rannau o'r system nad ydynt yn cael eu rhannu neu'u deall.

### Themâu allweddol o'r data a gasglwyd

Esgorodd y dadansoddiad thematig ansoddol o'r 29 o gyfweiliadau ac arolygon ar bedair prif thema a nifer o is-themâu (gweler Tabl 4). Yn gryno, roedd yr arweinwyr diogelu enwebedig

---

<sup>8</sup> Cafodd cyfweiliad ei gynnal gydag un awdurdod lleol a wnaeth hefyd ddychwelyd arolwg a oedd wedi'i gwblhau.

<sup>9</sup> Roedd mwy nag un arweinydd enwebedig yn bresennol mewn pedwar cyfweiliad, e.e. arweinydd gwasanaethau plant ac arweinydd gwasanaethau oedolion

yn siarad yr un iaith wrth sôn am nodau eu trefniadau diogelu. Buont yn myfyrio ynghylch elfennau allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn ogystal â diweddariadau diweddar i bolisi diogelu Cymru gyfan (2020), gan gyfeirio'n benodol at y rhain drwy gydol y broses. Roedd dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, meithrin cydnerthedd a rhoi 'rheolaeth' (P31) i'r sawl yr oeddent yn ymgysylltu â nhw i gyd yn themâu cyffredin a welwyd ar draws mwyafrif yr awdurdodau lleol. Roedd ffocws ar benderfyniadau amserol a chyson yn nodweddion allweddol wrth drafod trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth, a nodwyd bod angen 'atgyfeirio [pobl] i'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir' (P3) a'u 'diogelu yn gyflym' (P28).

O safbwynt trefniadau 'Drws Ffrynt' penodol, nododd yr arweinwyr enwebedig yn gyson fod atgyfeiriadau'n gallu dod o unrhyw le, gan awgrymu bod gwasanaethau 'Drws Ffrynt' ledled Cymru yn hollol agored ac yn hollol hygyrch i bawb. Roedd y modd y mae'r gwasanaethau 'Drws Ffrynt' hynny'n gweithredu o safbwynt prosesau, trefniant un asiantaeth/amlasiantaeth, gwasanaethau 'Drws Ffrynt' ar wahân ar gyfer plant ac oedolion, arbenigedd staff, cydleoli, a hyd yn oed yr iaith a ddefnyddir, i gyd fel pe baent yn amrywio wedyn ar draws yr awdurdodau lleol. Cafodd termau cyfnewidiol megis 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth', 'Pwynt Cyswllt Unigol', 'Pwynt Mynediad Unigol' a 'Drws Ffrynt' i gyd eu defnyddio (gweler Tabl 7) ac roedd angen eglurhad yn aml ynghylch eu swyddogaeth. Nodwyd bod gwasanaethau 'Drws Ffrynt' yn fwy anffurfiol a'u bod felly ar wahân i raddau helaeth i drefniadau diogelu mwy ffurfiol, a chyfeiriodd 62% yn benodol at y gwahanu rhwng gwasanaethau 'Drws Ffrynt' a gwasanaethau diogelu. Câi hynny ei adlewyrchu yn nhrefniadau staffio gwasanaethau 'Drws Ffrynt', a oedd yn aml yn cynnwys swyddogion cyswllt yn bennaf ynghyd ag un neu ddau o weithwyr cymdeithasol cymwys efallai, a oedd yn gallu adolygu gwybodaeth cyn bod penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud. Roedd staff gwasanaethau 'Drws Ffrynt' yn llai tebygol o fynd allan o'r swyddfa, ac roeddent yn gweithio o bell yn bennaf ac yn casglu gwybodaeth gan asiantaethau.

Gwelwyd tuedd tebyg wrth archwilio prosesau diogelu oedolion a phlant o wasanaethau 'Drws Ffrynt' i wasanaethau diogelu. Roedd gan rai arweinwyr diogelu farn eithaf cryf am yr angen i wahanu rolau a oedd yn gofyn am arbenigedd pendant oddi mewn i'r gwasanaethau a oedd ar wahân. Yn ôl yr arweinwyr hynny, nid yw'n bosibl cael rhywun i gyflawni pob rôl yn gymwys. Ar y llaw arall, roedd arweinwyr eraill o'r farn bod diogelu'n rhywbeth ehangach o lawer na hynny, ac roeddent yn rhannu gweledigaeth a oedd yn golygu symud tuag at wasanaethau mwy cydgysylltiedig sydd wedi'u cydleoli ac sy'n golygu ystyried 'diogelu yng nghyswllt pawb' (P21). Mae'n bosibl bod hynny hefyd yn adlewyrchu symudiadau diweddar mewn polisi, sy'n ymwneud â sicrhau bod gan drefniadau diogelu oedolion yr un statws statudol â threfniadau

diogelu plant. Mynegodd rhai arweinwyr diogelu oedolion rwystredigaeth bendant ynghylch gorfod rhoi pethau ar ddyletswydd i ymholi er mwyn cael gweithwyr proffesiynol i gymryd camau dilynol ac ymgysylltu, pan na fyddai hynny'n angenrheidiol mewn gwasanaethau plant. Nodwyd bod hynny'n broblem o hyd, ond roedd yn ymddangos yn gyffredinol bod y sefyllfa'n gwella ond 'bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd' (P19).

O safbwynt gweithio mewn partneriaeth, nododd 86% o'r 29 o arweinwyr enwebedig fod gwaith amlasiantaeth yn rhan o'u trefniadau. Nodwyd mai'r heddlu a'r sector iechyd yn bennaf oedd y prif asiantaethau a oedd yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a chydweithio, ond roedd cydberthnasau â'r sector iechyd fel pe baent yn well ym maes gwasanaethau oedolion. Nodwyd bod yr heddlu'n cyfrannu 'nifer sylweddol' (P1) o atgyfeiriadau. Soniodd rhai o'r cyfranogwyr am ddiffyg ymgysylltu â rhai gwasanaethau yr oeddent o'r farn eu bod yn hanfodol, e.e. gwasanaethau CAMHS neu wasanaethau addysg. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu gwaith tebyg arall a fu'n archwilio safbwyntiau ymarferwyr ym maes ymarfer diogelu (Shorrocks et al., 2019b) lle bernir bod gwaith diogelu yn un o gyfrifoldebau craidd gwasanaethau cymdeithasol a lle ceir diffyg dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr (Horwath a Morrison, 2007, Munro, 2011). Unwaith eto, mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y lefelau ymgysylltu'n fwy manwl ar draws yr amryw drefniadau diogelu 'Drws Ffrynt' ac mewn trefniadau diogelu mwy ffurfiol.

Roedd cydleoli yn bwnc allweddol. Nododd pob un ond dau o'r arweinwyr enwebedig fod rhyw ffurf ar gydleoli'n rhan o'u trefniadau diogelu. Dangosodd y data fod 12 wedi nodi bod eu tîm 'Drws Ffrynt' a'u timau diogelu mwy ffurfiol wedi'u cydleoli. Fodd bynnag, soniodd 14 nad oedd eu gwasanaethau oedolion a'u gwasanaethau plant wedi'u cydleoli. Gallai trefniadau cydleoli amrywio o drefniant lle caiff desgiau a rennir am yn ail eu darparu er mwyn i asiantaethau eu defnyddio yn ôl yr angen; i drefniant lle mae un asiantaeth allweddol megis gwasanaeth addysg wedi'i chydleoli yn rhan-amser; i drefniant mwy ffurfiol sy'n cynnwys Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth. Câi trefniant rhannu desg am yn ail ei ystyried yn ffordd wych o weithio ar gyfer siroedd mwy o faint, ac yn drefniant a oedd yn hybu cydberthnasau hefyd oherwydd eu bod yn galluogi pobl i ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl eraill a rhannu arferion yn ehangach (P31). Bernid bod cydleoli mewn adeiladau heddluoedd yn broblemus o safbwynt mynediad ar gyfer unrhyw ymwelwyr ac o safbwynt naws 'groesawgar' gyffredinol yr adeilad. Nododd un o'r ymatebwyr yn glir bwysigrwydd yr adeilad cydleoli a phresenoldeb gwasanaethau oedolion a phlant ynddo, a'r modd y mae hynny'n fanteisiol i'r teuluoedd agored i niwed y maent yn gweithio gyda nhw:

*"Mae'r ffaith ei fod wedi'i gydleoli â gwasanaethau oedolion yn galluogi'r Pwynt Cyswllt Unigol i gysylltu'n haws â gwasanaethau oedolion. Felly, gall anghenion y*

*rhieni, h.y. iechyd meddwl y rhieni, anabledd (anabledd corfforol ac anabledd dysgu) ac ati, gael eu hasesu ar yr un pryd, sy'n galluogi'r gweithiwr cymdeithasol i ganolbwyntio ar anghenion y plentyn" (P2).*

Unwaith eto, mae hynny'n adlewyrchu canfyddiadau ynghylch gwasanaethau oedolion a phlant a'r modd y cânt eu gweld ar hyn o bryd gan arweinwyr diogelu yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sydd y tu allan i'r amgylchedd hwn.

Yn ôl y disgwyl, nodwyd bod cydleoli'n dibynnu ar y lle sydd ar gael, a nododd rhai eu bod wedi'u cydleoli ar un adeg yn y gorffennol (e.e. gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion), bod hynny wedi newid yn ddiweddar ond bod y cydberthnasau a oedd wedi'u meithrin â'r staff wedi parhau (P10). Buodd eraill yn trafod manteision cydleoli o safbwynt rhannu gwybodaeth a chael sgysiau prydlon wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, pwysleisiodd eraill hefyd fod eu trefniadau gweithio rhithwir yn gweithio'n dda iawn oherwydd cydberthnasau a oedd wedi ennill eu plwyf. I'r perwyl hwnnw, cafodd Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth eu crybwyll gan chwarter y cyfranogwyr a nododd pump ohonynt farn negyddol am y model hwnnw fel fframwaith, gan sôn am y pwysau yr oeddent yn ei deimlo i orfod mabwysiadu'r model. Heb os, câi'r model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth ei ystyried yn fodel ar gyfer 'canol dinasoedd', ac o ganlyniad roedd ardaloedd mwy gwledig o'r farn bod y model Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth yn fwy priodol ac yn fwy effeithiol fel model rhithwir. Soniwyd ymhellach am fodel rhithwir yng nghyswllt y cyfyngiadau presennol oherwydd Covid-19, sy'n golygu bod Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth mewn adeiladau'n gweithio drwy ddulliau rhithwir ar hyn o bryd.

Waeth a yw trefniadau amlasiantaeth wedi'u cydleoli neu'n gweithredu drwy ddulliau rhithwir, un ffactor allweddol a grybwyllwyd oedd cydberthnasau. Soniodd yr arweinwyr am 'ymddiriedaeth', a nododd rhai fod yn rhaid i ymddiriedaeth gael ei meithrin dros gyfnod o amser ac nad oedd wedi bodoli erioed. Caiff hynny ei adlewyrchu mewn llawer o ymchwil flaenorol ynghylch pwysigrwydd cydberthnasau proffesiynol (Atkinson et al., 2007), ac ymddiriedaeth yn benodol (Dunn et al., (2000)). Cafodd cydweithio effeithiol ei briodoli hefyd i sefydlogrwydd timau. Roedd timau mewn ardaloedd mwy gwledig yn sôn yn fwy hyderus ac yn fwy cyson am sefydlogrwydd eu timau, ac am y ffaith eu bod felly'n gallu gweithio o bell yn eu rolau oherwydd bod pobl yn tueddu i aros mewn rolau. Ar y llaw arall, tueddid i glywed mwy o sôn am staff yn newid mewn modelau trefol lle'r oedd cydleoli yn digwydd, e.e. Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, lle'r oedd angen gweithio'n barhaus i sicrhau bod cydberthnasau ac ymddiriedaeth yn cael eu cynnal.

O safbwynt y meysydd lle nododd arweinwyr diogelu fod angen gwella, roedd y ffocws pennaf ar yr angen i wella trefniadau gweithio ar y cyd, systemau rhannu gwybodaeth, ac ansawdd a niferoedd atgyfeiriadau. Nodwyd bod awgrymiadau ynghylch dealltwriaeth well ymhlith pob gweithiwr proffesiynol o rôl pob asiantaeth, mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth er mwyn cynorthwyo gyda hynny, a pherchenogaeth ar risg yn faterion perthnasol. Cafodd hynny ei fynegi gan rai cyfranogwyr a nododd ei bod yn aml yn ofynnol i 'dimau diogelu' ymdrin â phob math o bryderon ynghylch diogelu, ond mai'r gweithiwr allweddol a oedd eisoes yn ymgysylltu â'r unigolyn fyddai yn y sefyllfa orau i barhau â'r berthynas honno. At hynny, roedd problemau gyda llwyfannau rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig hefyd â phroblemau ynghylch data, adolygiadau o berfformiad, a gwaith sicrhau ansawdd. Pan gafodd y cyfranogwyr eu holi mewn cyfweiliadau am ddata ynghylch atgyfeiriadau, dim ond sylwadau ynglŷn â'u cylch gwaith yr oeddent yn gallu eu gwneud yn aml, a châi unrhyw beth y tu hwnt i hynny ei ystyried yn anodd ei gasglu. Felly, roedd gallu adolygu trefniadau diogelu o'r 'Drws Ffrynt' i gamau diogelu yn rhywbeth a gâi ei ystyried yn eithriadol o anodd i'r mwyafrif, ac mae'n atal eu gallu i gynllunio a dyrannu adnoddau'n briodol.

Mae'n amlwg bod Covid-19 wedi effeithio ar wasanaethau i unigolion a theuluoedd agored i niwed ac ar brosesau a chydberthnasau gweithio ar gyfer diogelu ledled y byd. Gan fod yr ymatebion wedi'u cofnodi yn ystod y pandemig Covid-19, ond na ofynnwyd cwestiynau penodol am y pandemig, roedd yn hollol naturiol i arweinwyr diogelu fyfyrion ynghylch pethau a oedd yn gweithio'n dda, megis rhwyddineb ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol oherwydd hwylustod cyfathrebu drwy ddulliau rhithwir: 'mae presenoldeb [...] wedi gwella'n aruthrol' (P19) – gweithwyr a oedd yn aml wedi'i chael yn anodd cyfrannu at rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau am achosion. At hynny, roedd dulliau o'r fath yn golygu bod modd cael cyfarfodydd rhithwir ac iddynt fwy o ffocws, ac roedd yn ymddangos eu bod yn helpu i 'roi stop ar y diwydiant cyfarfodydd' (P17) a bod pobl mewn ardaloedd mwy gwledig fel pe baent yn fwy parod ar gyfer gweithio drwy ddulliau rhithwir. Ar y llaw arall, roedd yna bryderon ynghylch y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Roedd gwasanaethau megis Help Cynnar a gwasanaethau atal yn cael eu gohirio'n aml mewn llawer o ardaloedd, oherwydd eu bod yn dibynnu ar lawer o gynorthwywyr yn y gymuned. At hynny, roedd yna bryder am y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd yn ystod y cyfnod clo, a phryder ynghylch sut y mae modd ymgysylltu â theuluoedd agored i niwed heb fod hynny'n eu rhoi mewn perygl, gan sicrhau ar yr un pryd bod teuluoedd yn ddiogel. Ceir pryderon ychwanegol am blant nad ydynt wedi'u gosod yn y categori risg uchel ond a allai fod mewn 'amgylchedd llawn straen' (P14) yn eu cartref, a allai achosi ystod o broblemau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl wrth i gyfyngiadau cyfnod clo barhau. Yn olaf, buodd rhai o'r cyfranogwyr yn myfyrion ynghylch y modd y maent yn ymgysylltu â staff, ac roedd un unigolyn yn pryderu'n benodol am y gallu i

gynorthwyo a goruchwylio staff yn effeithiol o bell. Fel y nododd Schooling (2017), mae sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n hollbwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau'n effeithiol ym maes diogelu. Argymhellir, felly, y dylai gwaith pellach geisio deall effaith Covid-19 a gweithio o bell ar staff diogelu ar draws gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod eu profiad yn cael ei gofnodi a'i fod yn gallu llywio'r ffordd orau o'u cynorthwyo yn y dyfodol yn yr amgylchedd hwn lle mae gofyn cadw pellter cymdeithasol a gweithio o bell.

## Cyfyngiadau

Ceir nifer o gyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth bwysu a mesur canfyddiadau'r astudiaeth. Oherwydd bod y data wedi'i gasglu yn ystod y pandemig Covid-19 byd-eang, mae'n debygol bod y trefniadau a drafodwyd mewn llawer o ardaloedd wedi newid yn sylfaenol. Er y gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr am eu trefniadau cyn y pandemig Covid-19, mae'n debygol bod cyfyngiadau'r cyfnod clo, heb os, wedi dylanwadu ar eu safbwyntiau. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa sydd ohoni'n debygol o bara am amser hir, felly gobeithir drwy gasglu data yn ystod y pandemig presennol y bydd y canfyddiadau'n adlewyrchu ymarfer a fydd yn parhau.

Cafodd yr arweinwyr enwebedig a gafodd eu cyfweld eu dewis gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafwyd enwau eraill gan yr arweinwyr enwebedig dan sylw, a chafodd y bobl hynny eu cyfweld wedyn. Roedd cael pobl i ymgysylltu â'r astudiaeth yn broblemus, a'r rheswm am hynny heb amheuaeth oedd y pandemig a'r galwadau cysylltiedig a oedd ar arweinwyr diogelu. Roedd disgwyl i'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mai, ond ni chafodd y gwaith casglu data ei gwblhau tan fis Mehefin. Oherwydd bod rolau'r sawl a gafodd eu cyfweld yn amrywio – roedd rhai'n gyfrifol am yr holl ddiogelu a oedd yn digwydd yn eu hardal ac yn gallu sôn am bob agwedd ar waith diogelu, o'r 'Drws Ffrynt' i drefniadau diogelu ffurfiol ym maes gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, tra oedd eraill yn gyfrifol am un rhan yn unig o'r gwasanaeth ac felly'n methu â sôn am unrhyw beth heblaw'r rhan honno. Felly, mae angen i unrhyw waith pellach sicrhau bod pob agwedd ar y llwybr diogelu'n cael eu cofnodi i'r un graddau, oherwydd fel arall mae'n bosibl y gallai'r data gael ei sgiwio ychydig gan sylwadau'r arweinydd enwebedig.

## Casgliadau

Yn gryno, amlygodd y data rai meysydd allweddol:

- Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod gwasanaethau 'Drws Ffrynt' wedi'u mabwysiadu yn effeithiol, a'u bod yn cael eu hystyried yn wasanaethau agored a hygyrch i bawb (drwy

amryw ddulliau cyfathrebu: drwy ebost a thros y ffôn, i bob defnyddiwr: o aelodau'r cyhoedd i wasanaethau/sefydliadau arbenigol).

- Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod iaith a gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a'r polisi diogelu newydd ar gyfer Cymru gyfan wedi'u mabwysiadu yn llwyddiannus o safbwynt canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod pwys yn cael ei roi ar sicrhau bod yr unigolyn a'r teulu yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn trefniadau cydweithio amlasiantaeth, ond mae'r modd y mae'r trefniadau hynny'n gweithredu yn amrywio'n sylweddol (gweler Tabl 7).
- Wrth geisio adnabod unigolion perthnasol i'w cyfweld, roedd yn amlwg bod gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn cael eu hystyried yn aml yn wasanaethau ar wahân i'w gilydd. Y bwriad yn wreiddiol oedd cyfweld un arweinydd diogelu o bob awdurdod lleol, ond wrth siarad â'r arweinwyr enwebedig roeddent yn aml yn gyfrifol am un maes, er enghraifft diogelu plant, ac roeddent felly'n rhoi enw rhywun ychwanegol a fyddai'n gallu trafod y prosesau a'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu oedolion.
  - Daeth y broblem hon yn fwy amlwg wrth drafod ag arweinwyr diogelu, oherwydd nid oedd cytundeb ynghylch a ddylai'r gwasanaethau hyn fod yn fwy cydgysylltiedig ynteu'n fwy neilltuol, arbenigol ac ar wahân i'w gilydd yn bwrpasol.
- Roedd rhai arweinwyr enwebedig ym maes diogelu oedolion yn hynod o frwdfrydig ynghylch newidiadau diweddar o ran polisi a deddfwriaeth, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan oedolion statws statudol cyfartal ym maes diogelu. Fodd bynnag, roedd rhwystredigaethau ymhlith arweinwyr diogelu oedolion yn parhau i bwysleisio'r angen i ddefnyddio 'dyletswydd i ymholi' er mwyn gorfodi camau gweithredu, a oedd yn dangos bod mwy o lawer o waith i'w wneud ym maes diogelu oedolion i sicrhau ymateb tebyg i'r hyn a welir ym maes diogelu plant.
- Er y soniwyd bod trefniadau 'Drws Ffrynt' wedi ennill eu plwyf ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol, mae'n amlwg o'r amryw drefniadau (gweler Tabl 7) nad oeddent bob amser wedi'u cydleoli â thimau diogelu, a bod pryderon ynghylch sut y gall prosesau a llwybrau ar draws y system gyfan gael eu gweld, eu rhannu a'u harchwilio a sut y gellir dysgu gwersi, sy'n bwysig. Roedd y sawl a oedd wedi'u cydleoli â'i gilydd (timau 'Drws Ffrynt' a thimau diogelu) fel pe baent yn cydweithio'n well â'i gilydd, a soniwyd bod mwy o gymorth a mwy o waith dysgu'n deillio o sgysiau wyneb yn wyneb am achosion wrth iddynt gyrraedd.

- Gwnaed y pwynt uchod hefyd wrth sôn am anawsterau sy'n codi gyda systemau rhannu gwybodaeth, sy'n rhwystro'r gwaith o ddeall data ar draws gwasanaethau (plant ac oedolion, ac o dimau 'Drws Ffrynt' i dimau diogelu), sydd yna'n cyfyngu ar gapasiti i gynllunio adnoddau a chyflawni prosesau sicrhau ansawdd.
  - Gofynnwyd i bawb a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth am niferoedd atgyfeiriadau er mwyn cael amcangyfrif o faint y galw ar draws pob gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n medru rhoi gwybodaeth am bob rhan o'r system, er enghraifft o wasanaethau 'Drws Ffrynt' i wasanaethau timau diogelu, a oedd yn cynnwys gwasanaethau oedolion a phlant, tra oedd eraill yn medru darparu gwybodaeth am eu gwasanaeth nhw'n unig ac yn methu â chael gafael ar fwy o ddata. Mae hynny'n amlygu problemau unwaith yn rhagor o ran gallu gweld y system gyfan.
- Gwelwyd safbwyntiau a dulliau gweithredu gwahanol o safbwynt trefniadau amlasiantaeth rhwng y sawl sy'n defnyddio trefniadau amlasiantaeth mwy rhithwir a'r sawl sy'n defnyddio Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth mewn adeiladau, yn enwedig rhwng y rhai sydd mewn ardaloedd gwledig a'r rhai sydd mewn ardaloedd trefol.
  - Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi amlygu ymhellach yr amrywiadau sydd rhwng darpariaethau diogelu mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd ardaloedd gwledig fel pe baent yn fwy parod ar gyfer gweithio o bell ac yn gallu gwneud hynny'n well, o'u cymharu ag ardaloedd trefol a fynegodd bryder ynghylch y posibilrwydd y byddai cydberthnasau'n gwanhau rhwng sefydliadau pe bai trefniadau gweithio o bell yn parhau.
- Cafwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod asiantaethau allweddol yn cymryd rhan yn effeithiol mewn prosesau rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau, a bod lefelau uchel o ymgysylltu â'r heddlu ond bod problemau wrth i sefydliadau eraill ymgysylltu fel y bo angen. Soniwyd yn aml am y sector addysg a CAMHS.
- Er na chawsant eu crybwyll yn aml, bu rhai arweinwyr diogelu'n trafod problemau'n ymwneud ag adnoddau a throsiant staff. At hynny, soniodd ambell un am eu pryderon ynghylch gallu rhoi digon o gymorth i aelodau eu tîm sy'n delio â theuluoedd agored i niwed, ar ôl iddynt golli eu rhwydwaith o gymorth ffisegol (cymorth eu cymheiriaid) (oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a threfniadau gweithio o bell).
- O ran effaith Covid-19, roedd yna bryderon ynghylch gohirio neu leihau ymyrraeth gynnar a chymorth ac ymatebion ar lefel gymunedol, ac roedd yna bryderon ychwanegol ynghylch plant na chânt eu hystyried yn blant sy'n wynebu risg, neu blant sydd heb gynllun amddiffyn plentyn, ac ynghylch y ffaith nad yw llawer o blant agored i niwed yn cael eu gweld am fisoedd gan neb y tu allan i'w cartrefi.

- Yn gyffredinol, bu'r arweinwyr diogelu enwebedig yn siarad yn hyderus am eu nodau diogelu a'r modd yr oeddent yn eu cyflawni, ond roedd y mwyafrif yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

## Prif argymhellion: Cam 2

Mae'r prif argymhellion ynghylch gwaith y dylid ei wneud yn y dyfodol er mwyn helpu i barhau i lywio a gwella trefniadau diogelu amlasiantaeth effeithiol wedi'u tynnu allan o'r astudiaeth bresennol. Dylid gofyn y cwestiynau craidd canlynol mewn unrhyw astudiaeth ddilynol:

1. Beth yw barn, safbwyntiau a phrofiadau aelodau eraill o staff diogelu yng nghyswllt prosesau diogelu presennol, a 'beth yw trefniadau da'? Dylai cwestiynau pellach archwilio'n fwy manwl y gwerth ychwanegol sydd i'w gael o gydweithio ym maes diogelu.
  - a. O ystyried canfyddiadau'r astudiaeth bresennol, dylai hynny gynnwys y sawl sy'n gweithio mewn gwasanaethau 'Drws Ffrynt', timau diogelu, timau plant ac oedolion, a gwasanaethau ehangach megis help cynnar ac asiantaethau eraill sy'n rhan o'r prosesau hyn, a dylent gynnwys y sawl sy'n gweithio ar draws ardaloedd gwledig a threfol:
2. Pwy sy'n cyfrannu at rannu gwybodaeth, gwneud penderfyniadau a llunio asesiadau risg? Sut y maent yn cyfrannu? Byddai archwilio'r cwestiwn hwn yn helpu i lywio'r modd y bydd trefniadau'n cael adnoddau ac yn gweithredu (wedi'u cydleoli/o bell) yn y dyfodol.
3. All prosesau ac ymarfer diogelu effeithiol gael eu hadnabod mewn data diogelu?
  - a. Archwilio setiau data drwy'r system ddiogelu. Unwaith eto, dewis detholiad o drefniadau gwahanol a nodwyd yn yr astudiaeth bresennol (e.e. gwasanaethau plant/oedolion/cydgysylltiedig, ardaloedd trefol/gwledig, gweithio o bell/cytleoli) a dadansoddi'r data yn fwy trylwyr wrth archwilio gwaith gwneud penderfyniadau, y rhan y mae asiantaethau/ymyriadau yn ei chwarae, achosion sy'n dychwelyd i'r system, nodweddion sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed, ac ati. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl deall y broses o bontio o'r cyswllt cychwynnol i gymorth tymor hwy, a deall beth sy'n gweithio yn dda.
  - b. Byddai cwestiynau allweddol yn cynnwys: Pa ffactorau sy'n bresennol mewn achosion nad ydynt yn dychwelyd i'r system? Ac i'r gwrthwyneb, pa ffactorau sy'n bresennol yn yr achosion sy'n dychwelyd?
4. Beth fu effaith Covid-19 ar ymarferwyr a threfniadau cydweithio? Archwilio eu profiadau a'u safbwyntiau wrth geisio adnabod arfer da a ddylai barhau ar ôl Covid-19,

yn ogystal ag archwilio meysydd lle mae angen gwneud newidiadau a lle mae angen cymorth ychwanegol yn y dyfodol.

5. Beth fu effaith Covid-19 ar ymarfer diogelu i unigolion a theuluoedd (defnyddwyr)?
  - a. Ystyried effaith Covid-19 ar y teuluoedd hynny sy'n agored i niwed. Archwilio pa gymorth, os o gwbl, a gawsant yn ystod y cyfnod clo ac archwilio effaith eu profiadau. Felly, ymgysylltu â phlant, teuluoedd ac oedolion sy'n ymwneud â gwasanaethau diogelu, er mwyn cael eu barn ynghylch beth sy'n gweithio yn dda a beth nad yw'n gweithio.
  - b. Mae angen deall effaith amrywiol y cyfnod clo, a chyfnodau clo 'bach' parhaus posibl, ar blant. Ystyried sut y gall ysgolion a gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol a pharatoi ar gyfer unrhyw darfu pellach oherwydd Covid-19, ond ystyried hefyd y ffordd orau o gynorthwyo plant agored i niwed, a allai fod wedi dioddef ystod o brofiadau niweidiol yn ystod y cyfnod dan sylw ac a allai barhau i ddioddef profiadau o'r fath yn ystod cyfnodau o hunanynysu.
6. A yw gwersi byw a gweithredol ac adborth i ymarferwyr yn arwain at weithredu ac yn cael eu rhannu/sut mae hynny'n digwydd? Cysylltiadau â hyfforddiant, datblygu, myfyrio a thryloywder – a gafodd sylw yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn. A yw'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth a diwylliant ac, os felly, sut?

## Cyfeiriadau

Abbott, D., Townsley, R. a Watson, D. (2005). Multi-agency working in services for disabled children: what impact does it have on professionals? *Health and Social Care in the Community*, cyfrol 13, rhif 2, tt. 155-163.

Arnstein, S.R. (1969). A ladder of citizen participation, *Journal of the American Institute of Planners*, cyfrol 35, rhif 4, tt. 216-224.

Atkinson, M., Jones, M. a Lamont, E. (2007). *Multi-agency Working and its Implications for Practice*. Reading: CfBT Education Trust.

Atkinson, M., Wilkin, A., Stott, A., Doherty, P. a Kinder, K. (2002). *Multi-Agency Working: A Detailed Study*. National Foundation for Educational Research: Slough.

Aynsley-Green, A. a Hall, D. (2009). Safeguarding children: a call to action. *The Lancet*, cyfrol 373, rhif 9660, tt. 280-281.

Baginsky, M. a Dez, H. (2015). A review of current arrangements for operation of local safeguarding children boards. *Research in Practice*. Local Government Association. [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.kcl.ac.uk/scwru/pubs/2015/reports/baginsky>

Bwrdd Diogelu Cymru (2020). Am y Bwrdd. Ar gael yma: [http://bwrdddiogelu.cymru/about-the-board/?=cy\\_GB](http://bwrdddiogelu.cymru/about-the-board/?=cy_GB)

Cameron, A. a Lart, R. (2003). Factors promoting and obstacles hindering joint working: a systematic review of the research evidence, *Journal of Integrated Care*, cyfrol 11, rhif 2, tt. 9-17.

Cheminais, R. (2009). *Effective Multi-agency Partnerships: Putting Every Child Matters into Practice*, London: Sage.

College of Policing. (2019). *Vulnerability* [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.college.police.uk/What-we-do/Development/Vulnerability/Pages/Vulnerability.aspx> [15/04/20]

Convery, A. (1998). A teacher's response to 'Reflection-in-Action', *Cambridge Journal of Education*, cyfrol 28, rhif 2, tt. 197-205.

Crockett, R., Gilchrist, G., Davies, J., Henshall, A., Hoggart, L., Chandler, V., Sims, D. a Webb, J. (2013). *Assessing the early impact of Multi Agency Safeguarding Hubs*. London: University of Greenwich/London Councils.

Cullinan, M. (July 2013). *Lancashire Improving Futures Programme*. [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.lancashirechildrenstrust.org.uk/web/viewdoc.aspx?id=103050> [15/04/20].

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. (2014). [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents> [17/04/20].

Department for Education (2019). *Statistics at DfE*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education/about/statistics> [17/04/20].

Department of Health (2000) *No Secrets: Guidance on Developing and Implementing Multi-Agency Policies and Procedures to Protect Vulnerable Adults From Abuse*. London: Stationery Office.

Diogelu Cymru (2020). Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Ar gael yma: <https://diogelu.cymru/int/i1/i1.p1.html>

Dunn, P., Britain, G. a Britain, G. (2000). *No Secrets: Guidance on Developing and Implementing Multi-Agency Policies and Procedures To Protect Vulnerable Adults From Abuse*, London: Department of Health.

Easton, C., Lamont, L., Smith, R. ac Aston, H. (2013). *We Should Have Been Helped from Day One: A Unique Perspective From Children, Families and Practitioners. Findings from LARC5* [Ar-lein]. Slough: NFER. Ar gael yma: <https://www.nfer.ac.uk/publications/LRCF01/LRCF01.pdf> [16/04/20].

Feng, J., Fetzer, S., Chen, Y., Yeh, L. a Huang, M. (2010). Multidisciplinary collaboration reporting child abuse: a grounded theory study. *International journal of Nursing Studies*, cyfrol 47, rhif 12, tt. 1483-1490.

Fletcher, B.W., Lehman, W.E., Wexler, H.K., Melnick, G., Taxman, F.S. a Young, D.W. (2009). Measuring collaboration and integration activities in criminal justice and substance abuse treatment agencies. *Drug and Alcohol Dependence*, cyfrol 103, tt. S54-S64.

Fox, C. a Butler, G. (2004). Partnerships: where next? *Community Safety Journal*, cyfrol 3, rhif 3, tt. 36–44.

Fraser, A. (2017). *Gangs & Crime*. London: Sage.

Golden, S., Aston, H., Durbin, B. a'r Local Government Association (2011). *Devon Multi-Agency Safeguarding Hub: Case-Study Report*, NFER.

Hanson, J., Carwardine, J., Chapman, P., Ross, D. a Massey, K. a Bamford, N. (2015). *Safeguarding Annual Report: 2014 - 2015*, East Lancashire CCGs: Preston.

Harris, A. ac Allen, T. (2011). Young People's Views of Multi-Agency Working. *British Educational Research Journal*, cyfrol 37, rhif 3, tt. 405-419.

HM Treasury 2003, *Every Child Matters*. [Ar-lein] Ar gael yma: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/272064/5860.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/272064/5860.pdf) [15/09/15].

Home Office (2014). *Multi-Agency Working and Information Sharing Project. Final report*. Ar gael yma: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/338875/MASH.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/338875/MASH.pdf)

Horwath, J. a Morrison, T. (2007). Collaboration, integration and change in children's services: critical issues and key ingredients. *Child Abuse and Neglect*, cyfrol 31, rhif 1, tt. 55-69.

House of Commons (2008). *Select Committee on Welsh Affairs Fifth Report*. [Ar-lein]. <https://publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmwelaf/576/57605.htm> [17/04/20]

Hunter, T. N. (2004). Child welfare and alcohol and other drug treatment (AOD): Bridging the gap to comprehensive services. *Journal of Family Social Work*, cyfrol 7, rhif 4, tt. 63-73.

Huxham, C. a Vaugen, S. (2000). Ambiguity, complexity and dynamics in the membership of collaboration. *Human Relations*, cyfrol 53, rhif 6, tt. 771-806.

Iechyd yng Nghymru (2020). Strwythur. Ar gael yma: <https://www.wales.nhs.uk/gigcymruamdanomni/strwythur>

Incentive Technology Group (2017). Independent evaluation of the 2016 learning programme. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.socialcare.wales/hub/evaluation-2016-17>

Jaques, E. (2017). *Requisite Organization: A Total System for Effective Managerial Organization and Managerial Leadership for the 21st Century*. London: Routledge.

Jones, J. a Gallop, L. (2003). No Time to Think: Protecting the Reflective Space in Children's Services, *Child Abuse Review*, cyfrol 12, rhif 2, tt. 101-106.

Kempe, R.S. a Kempe, C.H. (1978). *Child Abuse*. London: Fontana.

Kirby, S. a Greaves, L. (1996). Foul play: sexual abuse and harassment in sport. Yn: Roper E. A. (goln). *Gender relations in sport* (tt. 141-161). *Teaching Gender*, Rotterdam: Sense Publishers.

Laming, L. (2009). *The Protection of Children in England: A Progress Report 2009*. London: The Stationery Office.

Laming, W. (2003). *The Victoria Climbié Inquiry—Report of an Inquiry by Lord Laming Presented to Parliament by the Secretary of State for Health and the Secretary of State for the Home Department by Command of Her Majesty*. London: The Stationery Office.

Lewis, I. (2006). *Speech given at the Commission for Social Care Inspection's Annual Conference, 29 June 2006*. [Ar-lein] Ar gael yma: [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/en/MediaCentre/Speeches/Speecheslist/DH\\_4137064](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/en/MediaCentre/Speeches/Speecheslist/DH_4137064)

Llywodraeth Cymru (2019a). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cod Ymarfer Rhan 10. Ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-10-eiriolaeth.pdf>

Llywodraeth Cymru (2019b). Datganiad Ystadegol Cyntaf: Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2018-19. Ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/plant-syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2018-i-mawrth-2019-831.pdf>

Llywodraeth Cymru (2019c). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl. Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant. Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr. Ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-rhannu-gwybodaeth-er-mwyn-diogelu-plant.pdf>

Macmillian, H.I., Walther, C. N., Barlow, J., Fergusson, D. M., Leventhal, J. M. a Taussig, H.N. (2008). Interventions to prevent child maltreatment and associated impairment. *Lancet*. 373(9659) tt.250-266. Dangosydd Eitem Ddigidol: 10.1016/SO140-6736(08)61708-0 [15/04/ 20].

Marsh, I., Cochrane, J. a Melville, G. (2004). *Criminal Justice: An Introduction to Philosophies, Theories and Practice*. London: Routledge.

Miller, C. a McNicholl, A. (2003). Integrating children's services, *Issues and practice*. London: Office of Public Management.

Miller, C. ac Ahmad, Y. (2000). Collaboration and partnership: an effective response to complexity and fragmentation or solution built on sand? *International Journal of Sociology and Social Policy*, cyfrol 20, rhif 5/6, tt. 1-38.

Morrison, T. (1996). Partnership and collaboration: rhetoric and reality. *Child Abuse and Neglect*, cyfrol 20, rhif 2, tt. 127-140.

Munro, E. (2009). *Munro Review of Child Protection: Final Report - A Child-Centred System*. London: Department for Education.

NSPCC (2015). *A child's legal rights: Legal definitions*. [Ar-lein] Ar gael yma: [www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/legal-definition-child-rights-law/legal-definitions/](http://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/legal-definition-child-rights-law/legal-definitions/) [17/01/15].

Office for National Statistics (2014). *Chapter 4 - Intimate Personal Violence and Partner Abuse*. [Ar-lein] Ar gael yma: [http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776\\_352362.pdf](http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_352362.pdf) [15/04/20].

Office for National Statistics (2020). Child abuse in England and Wales: March 2020. Ar gael yma: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/childabuseinenglandandwales/march2020>

Office of the Public Guardian (2013), *Safeguarding Policy*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.justice.gov.uk/downloads/protecting-the-vulnerable/mca/safeguarding-policy.pdf>.

Percy-Smith, J. (2005). *Definitions and Models: What Works in Strategic Partnerships for Children*. Barnado's: Ilford.

Pinkney, L., Penhale, B., Manthorpe, J., Perkins, N., Reid, D. a Hussein, S. (2008). Voices from the frontline: social work practitioners' perceptions of multi-agency working in adult protection in England and Wales. *Journal of Adult Protection*, cyfrol 10, rhif 4, tt. 12-24.

Richardson, V. (2014). Safeguarding adults. *Journal of Perioperative Practice*, cyfrol 24, rhif 5, tt. 118-120.

Salmon, G. a Rapport, F. (2005). Multi-agency voices: a thematic analysis of multi-agency working practices within the setting of a Child and Adolescent Mental Health Service. *Journal of Interprofessional Care*, cyfrol 19, rhif 5, tt. 429-443.

Scott, S.G. a Bruce, R.A. (1994). Determinants of innovative behavior: A path model of individual innovation in the workplace. *Academy of Management Journal*, cyfrol 37, rhif 3, tt. 580-607.

Scottish Government a COSLA (2009.), *A Partnership Approach to Tackling Violence Against Women in Scotland: Guidance for Multi-Agency Partnerships*. [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/299742/0093439.pdf> [15/04/20].

Schooling, E. (2017). Social care commentary: creating an *effective 'front door'* [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/speeches/social-care-monthly-commentary-march-2017> [15/04/20].

Shorrock, S. (2017). *Protecting vulnerable people: an exploration of risk factors and processes associated with Lancashire's multi-agency safeguarding hubs (MASH)* [Ar-lein]. Ar gael yma: [http://www.Clok.Uclan.Ac.Uk~2F23075\[15/04/20\]](http://www.Clok.Uclan.Ac.Uk~2F23075[15/04/20]).

Shorrock, S., McManus, M. A. a Kirby, S. (2019a). Investigating the Characteristics of Vulnerable Referrals Made to a Multi-Agency Safeguarding Hub. *POLICING-A JOURNAL OF POLICY AND PRACTICE*, cyfrol 13, rhif 2, tt. 201-212. Dangosydd Eitem Ddigidol: 10.1093/police/paz003

Shorrock, S., McManus, M. M. a Kirby, S. (2019b). Practitioner perspectives of multi-agency safeguarding hubs (MASH). *Journal of Adult Protection*, cyfrol 22, rhif 1, tt. 9-20. Dangosydd Eitem Ddigidol: 10.1108/JAP-06-2019-0021

Sidebotham, P. (2001). An ecological approach to child abuse: a creative use of scientific models in research and practice. *Child Abuse Review*. cyfrol 10, rhif 2, tt. 97-112.

Sloper, P. (2004). Facilitators and barriers for co-ordinated multi-agency services. *Child: Care, Health and Development*, cyfrol 30, rhif 6, tt. 571-580.

StatsCymru (2020a). Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael yma: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31marchper10000population-localauthority-year>

StatsCymru (2020b). Diogelu oedolion: Ar gael yma: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Adult-Safeguarding>

Tidy, C. (2016). *Safeguarding adults* [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.patient.info/doctor/safeguarding-adults-pro> [15/04/20].

Unicef (1989). Convention on the Rights of the Child. [Ar-lein] Ar gael yma: [https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC\\_united\\_nations\\_convention\\_on\\_the\\_rights\\_of\\_the\\_child.pdf?\\_ga=2.260518477.1314880526.1587635855-638715537.1587635855](https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.260518477.1314880526.1587635855-638715537.1587635855) [23/04/20]

Van Eyk, H. a Baum, F. (2002). Learning about interagency collaboration: trialling collaborative projects between hospitals and community health services. *Health and Social Care in the Community*, cyfrol 10, rhif 4, tt. 262-269.

Walter, S. G., Walter, A. a Müller, D. (2015). Formalization, Communication Quality, and Opportunistic Behavior In R & D Alliances Between Competitors. *Journal of Product Innovation Management*, cyfrol 32, rhif 6, tt. 954-970.

Watson, D., Townsley, R. ac Abbott, D. (2002). Exploring multi-agency working in services to disabled children with complex healthcare needs and their families. *Journal of Clinical Nursing*, cyfrol 11, rhif 3, tt. 367-375.

Wilcox, D. (1994). *The Guide to Effective Participation*, Partnership Brighton, UK.

Wood, A. (2016). *The Wood Review*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/wood-review-of-local-safeguarding-children-boards> [18/04/20].

Y Ddeddf Diogelu Data gyffredinol. (2018). [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/collections/data-protection-act-2018> [18/04/20].

Y Ddeddf Diogelu Data. (2018). [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted> [17/04/20].

Y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf. (2006). [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents> [18/04/20].

Y Ddeddf Gofal. (2014). [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted> [15/04/20]

Y Ddeddf Hawliau Dynol. (1998). [Ar-lein] Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents> [18/04/20].

*Y Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol.* (2017). [Ar-lein] Ar gael yma:  
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/16/contents/enacted> [17/04/20].

*Y Ddeddf Plant.* (1989). [Ar-lein] Ar gael yma:  
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents> [17/04/20].

## Atodiadau

I'w darparu o gael cais amdanynt:

- Rhestr o'r cyfweiliadau
- Ffurflen ganiatâd
- Taflen wybodaeth